

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

Ar yr un donfedd Ymchwiliad i Radio yng Nghymru

Rhagfyr 2018



www.cynulliad.cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol: www.cynulliad.cymru/SeneddDGCh

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: **0300 200 6565**

E-bost: **SeneddDGCh@assembly.wales**

Twitter: **@SeneddDGCh**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Ar yr un donfedd

Ymchwiliad i Radio yng Nghymru

Rhagfyr 2018



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 28 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.cynulliad.cymru/SeneddDGCh

Cadeirydd y Pwyllgor:



Bethan Sayed AC
Plaid Cymru
Gorllewin De Cymru

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Mick Antoniw AC
Llafur Cymru
Pontypridd



Dai Lloyd AC
Plaid Cymru
Gorllewin De Cymru



Jane Hutt AC
Llafur Cymru
Bro Morgannwg



Caroline Jones AC
Annibynnol
Gorllewin De Cymru



David Melding AC
Ceidwadwyr Cymreig
Canol De Cymru



Rhianon Passmore AC
Llafur Cymru
Islwyn



Jenny Rathbone AC
Llafur Cymru
Canol Caerdydd

Roedd yr Aelodau a ganlyn hefyd yn aelodau o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn



Suzy Davies AC
Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin De Cymru



Siân Gwenllïan AC
Plaid Cymru
Arfon



Neil Hamilton AC
UKIP Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



Jack Sargeant AC
Llafur Cymru
Alun a Glannau Dyfrdwy



Lee Waters AC
Llafur Cymru
Llanelli

Cynnwys

Argymhellion	5
1. Cefndir a Chylch Gorchwyl	7
Cefndir	7
Cylch Gorchwyl	7
Ymgynghoriad	8
Y cyd-destun	8
Darpariaeth ac Argaeledd Gwasanaethau Radio yng Nghymru	9
2. Radio masnachol	11
Y cefndir	11
Dadroleiddio radio masnachol - Effaith ar gynulleidfaoedd Cymru	11
Newyddion Cymru gyfan	14
Y Gymraeg	17
Ein barn ni	19
3. Radio cymunedol	23
Cefndir	23
Radio Beca	24
Tystiolaeth	24
Ein barn ni	30
4. Radio'r BBC yng Nghymru:	33
Cefndir	33
Tystiolaeth	35
Ein barn ni	37
5. Rôl newydd Ofcom fel rheoleiddiwr allanol y BBC	39
Beth mae Ofcom wedi'i wneud?	39
Tystiolaeth	40
Ein barn ni	41

6. Seilwaith	43
Darpariaeth DAB mewn Cartrefi.....	43
Tystiolaeth.....	43
Ein barn ni.....	45
7. Datganoli darlledu.....	47
Ein barn ni.....	47
Radio Ysbyty/Myfyrwyr	49
Atodiad A: Sesiynau tystiolaeth lafar.....	51
Atodiad B: Tystiolaeth ysgrifenedig	52
Atodiad C: Testun o Lythyr i Ofcom ynghylch ei ymgynghoriad “Lleolrwydd ar radio masnachol”	53

Argymhellion

Argymhelliad 1. Dylai'r Gweinidog ailasesu sut mae'n mynd ati i ymgysylltu â DCMS dros ddadroleiddio radio masnachol a dylai geisio llunio pwerau a dyletswyddau Ofcom yn ogystal â cheisio dylanwadu ar y materion y mae'n eu hystyried..... Tudalen 22

Argymhelliad 2. Dylai DCMS ystyried cyflwyno gofyniad rheoleiddiol i orsafoedd radio masnachol yng Nghymru adrodd ar newyddion Cymreig ei natur, yn ogystal â newyddion lleol a'r DU fel rhan o'i diwygiadau ar gyfer radio masnachol.
..... Tudalen 22

Argymhelliad 3. Dylai Ofcom archwilio cystadleuaeth yn y diwydiant radio masnachol yng Nghymru i weld sut y gellir annog mwy o amrywiaeth a pherchenogaeth yn y farchnad. Tudalen 22

Argymhelliad 4. Rydym yn argymhell, o ran Cymru, y dylai Ofcom gadw'r "ardaloedd cymeradwy" cyfredol a'r nifer gofynnol o oriau sydd wedi'u gwneud yn lleol y dylai gorsafoedd radio masnachol lleol eu darparu..... Tudalen 22

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi ei gwerthusiad o'r gronfa Radio Cymunedol ac, gan dynnu ar unrhyw wersi a ddysgwyd, ystyried cyflwyno cronfa newydd, gan ystyried unrhyw synergeddau rhwng Radio Cymunedol a darparwyr newyddion hyperleol eraill. Tudalen 32

Argymhelliad 6. Dylai Ofcom wneud mwy i roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith fod y Gronfa Radio Cymunedol y mae'n gweithredu ar ran DCMS ar gael yng Nghymru.
..... Tudalen 32

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru ddarlledu mwy o hysbysebion y llywodraeth, yn enwedig ymgyrchoedd gwybodaeth gyhoeddus, ar orsafoedd Radio Cymunedol a rhoi canllawiau i gyrff eraill y sector cyhoeddus yng Nghymru i dynnu eu sylw at y posibiladau o ddefnyddio mwy ar y sector. Tudalen 32

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth y DU ystyried sut mae ei chyfyngiadau ariannol cyfredol ar Radio Cymunedol yn gweithio'n ymarferol ac a yw rhai o'r cyfyngiadau presennol yn cyfyngu diangen ar ddatblygiad y sector yng Nghymru.
..... Tudalen 32

Argymhelliad 9. Dylai'r sector Radio Cymunedol yng Nghymru ystyried y ffordd orau o fesur llwyddiant, gan gynnwys nifer y gwrandawyr a ffigurau RAJAR. Er mwyn hwyluso hyn, mae'r Pwyllgor yn bwriadu trefnu symposiwm ar gyfer gorsafoedd Radio Cymunedol yng Nghymru i roi cyfle iddynt ddod at ei gilydd ac ystyried ystod o faterion cyffredin, gan gynnwys defnyddio gwasanaethau ffigurau RAJAR..... Tudalen 32

Argymhelliad 10. Dylai'r BBC fynd ar drywydd rhagor o opsiynau sydd ar gael iddo er mwyn darparu trefniant eithrio ar wasanaethau radio rhwydwaith i ddarlledu newyddion o Gymru a dylai flaenoriaethu buddsoddiad i helpu i oresgyn y problemau technegol sy'n atal hyn ar hyn o bryd..... Tudalen 38

Argymhelliad 11. Dylai'r BBC osod targedau mwy heriol i'w hun ar gyfer cynnwys radio rhwydwaith y DU o Gymru. Dylai BBC Cymru Wales fod yn fwy pendant wrth hyrwyddo straeon newyddion o Gymru a cherddoriaeth o Gymru ar gyfer rhwydweithiau'r DU..... Tudalen 38

Argymhelliad 12. Yng ngoleuni'r diffyg her i'r BBC yn nhrwydded weithredu newydd Ofcom, dylai'r BBC drin yr amodau rheoleiddio hyn fel llawr yn hytrach na nenfwd, a cheisio cynyddu:

- nifer y rhaglenni newyddion a materion cyfoes ar Radio Wales a Radio Cymru; a
- nifer y cynyrchiadau radio rhwydwaith a wneir yng Nghymru.

..... Tudalen 42

Argymhelliad 13. Dylai Ofcom ddefnyddio ei ddyletswyddau newydd o sicrhau bod cynulleidfaoedd yng Nghymru yn cael eu "gwasanaethu'n dda" gyda "... mwy o wasanaethau ac allbwn unigryw" i sicrhau bod mwy o gerddoriaeth gan artistiaid o Gymru yn cael ei chwarae ar y radio yng Nghymru..... Tudalen 42

Argymhelliad 14. Ni ddylai DCMS wneud unrhyw benderfyniad ar y newid i ddigidol nes bod y diffyg cymharol o ddarpariaeth ddigidol yng Nghymru wedi'i wella..... Tudalen 46

Argymhelliad 15. Dylai Ofcom adolygu pryderon ynghylch cystadleuaeth sy'n deillio o'r ffaith fod gan Arqiva fonopoli i bob pwrpas dros drawsyrro yng Nghymru..... Tudalen 46

Argymhelliad 16. Dylai Llywodraeth Cymru nodi'n glir ei strategaeth ar gyfer sicrhau bod Radio yng Nghymru yn cyflawni amcanion polisi Llywodraeth Cymru ei hun..... Tudalen 48

1. Cefndir a Chylch Gorchwyl

Cefndir

1. Sefydlwyd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu i raddau helaeth oherwydd cydnabyddiaeth yn y pedwerydd Cynulliad bod rôl darlledwyr a'r cyfryngau yng Nghymru yn eithriadol o bwysig yn ddiwylliannol ac yn wleidyddol. Cafwyd consensws eang ynghylch y ffaith er nad yw'r rhan fwyaf o agweddau ar bolisi darlledu a chyfryngau wedi'u datganoli'n ffurfiol yng Nghymru ar hyn o bryd, maent yn effeithio ar ystod o faterion, megis y Gymraeg, y celfyddydau a diwylliant, sydd wedi'u datganoli. Felly mae gan y Cynulliad Cenedlaethol fuddiant clir a dilys mewn dal darlledwyr, a'r cyfryngau yn fwy cyffredinol, i gyfrif.
2. Yn ei adroddiad pwysig cyntaf, "Y Darlun Mawr", a gyhoeddwyd y llynedd, nododd y Pwyllgor ei fwriad i gynnal ymchwiliadau sy'n edrych ar bob agwedd ar ddarlledu a'r cyfryngau yn ystod y Cynulliad hwn. Ers hynny, mae'r Pwyllgor wedi cyhoeddi adroddiadau ar ddyfodol S4C ac i newyddiaduraeth newyddion yng Nghymru. Mae'r Pwyllgor yn bwriadu edrych maes o law ar sut mae Cymru'n cael ei phortreadu ar rwydweithiau darlledu'r DU hefyd.
3. Yr ymchwiliad hwn yw trydydd llinyn ein gwaith ar y prif faterion sy'n effeithio ar berthynas Cymru â darlledu a'r cyfryngau.

Cylch Gorchwyl

4. Cytunodd y Pwyllgor y dylai asesu'r materion canlynol yn ystod yr Ymchwiliad:
 - i ba raddau y mae gwasanaethau radio BBC Cymru Wales, gwasanaethau radio masnachol a gwasanaethau radio cymunedol yn diwallu anghenion cynulleidfaoedd yng Nghymru;
 - effaith bosibl dadreoleiddio radio masnachol ar gynulleidfaoedd yng Nghymru;
 - strwythurau perchnogaeth radio masnachol a'u heffaith ar gynnwys lleol;
 - effaith technoleg newydd ar gynnwys lleol;
 - cynaliadwyedd ariannol gwasanaethau radio cymunedol yng Nghymru, ac

- addasrwydd seilwaith darlledu radio yng Nghymru.

Ymgynghoriad

5. Cynhaliodd y Pwyllgor ymgynghoriad ysgrifenedig rhwng 19 Ionawr 2018 a 16 Chwefror 2018. Ceir rhagor o fanylion am yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn Atodiad B. Mae manylion y rhai y mae'r Pwyllgor wedi clywed tystiolaeth lafar ganddynt yn Atodiad A.

Y cyd-destun

6. Ar ôl deunydd print, radio yw un o'r technolegau cyfryngau torfol hynaf. Serch hynny, nid yw ei bwysigrwydd fel rhan allweddol o'r ffordd y mae pobl yn cael eu newyddion a chael profiad o'r byd wedi pylu dim. Mae hyn yn arbennig o wir yng Nghymru - yn y 12 mis hyd at chwarter cyntaf 2017, cyrhaeddodd gwasanaethau radio 91.6% o'r boblogaeth oedolion yng Nghymru, y cyrhaeddiad uchaf o unrhyw un o wledydd yn y DU.


Cyrhaeddiad wythnosol ac oriau gwranddo ar gyfartaledd

	England	Scotland	Wales	Northern Ireland	UK TOTAL
Average weekly listening	21.4 hours	20.6 hours	22.7 hours	20.8 hours	21.4 hours
Reach	89.7%	87.1%	91.6%	89.0%	89.6%

Source: RAJAR, All adults (15+), 12 months to Q1 2017. Reach is defined as the number of people aged 15+ who tune to a radio station within at least 1 quarter-hour period over the course of a week. Respondents are instructed to fill in a quarter-hour only if they have listened to the station for at least 5 minutes within that quarter-hour.

7. Yn ogystal â bod cyfran uwch o bobl yn gwranddo, mae pobl yng Nghymru yn gwranddo'n hirach o gymharu â'r DU gyfan, sef 22.7 awr yr wythnos ar gyfartaledd, y ffigur uchaf ers 2012.

Cyfran oriau gwranddo fesul cenedl¹



¹ Ofcom 2017 Communications Market Report, Radio and audio content www.ofcom.org.uk/.../data/assets/pdf_file/0012/105006/wales-radio-audio.pdf

- 8.** Mae faint o amser mae pobl yn ei dreulio'n gwranddo ar unrhyw radio yng Nghymru wedi cynyddu dros filiwn o oriau yn y flwyddyn ddiwethaf (54.1 miliwn o oriau o'i gymharu â 52.9 miliwn). Mae gwranddo ar wasanaethau'r DU gyfan yn cyfrif am 64% o'r holl wrando yng Nghymru, yr uchaf o unrhyw wlad yn y DU. Gwraidd hyn yw bod pobl yn gwranddo ar wasanaethau rhwydwaith y BBC, sy'n cyfrif am 48% o'r holl wrando.
- 9.** Mae gwranddo ar wasanaethau masnachol ledled y DU yng Nghymru wedi gweld y cynnydd mwyaf o flwyddyn i flwyddyn, gan ychwanegu 2.3m awr ers 2016. Serch hyn, gorsafoedd masnachol lleol yng Nghymru sydd â'r gyfran isaf o gyfanswm oriau gwranddo o holl wledydd y DU ar gyfer y mathau hyn o wasanaeth, sef 26%, 3 pwynt canran yn is na chyfartaledd y DU. Yn yr un modd, cyfran y gwranddo ar orsafoedd masnachol yn gyffredinol (h.y. rhai lleol a rhai DU gyfan) yng Nghymru yw'r isaf o blith holl wledydd y DU, sef 42%.
- 10.** Mae gwranddo ar wasanaethau'r BBC yn gyffredinol yng Nghymru, gan gynnwys gwasanaethau gwledydd y BBC (BBC Radio Cymru a BBC Radio Wales) yn cyfrif am 56% o'r holl wrando; yr uchaf o blith holl wledydd y DU.


Darpariaeth ac Argaeledd Gwasanaethau Radio yng Nghymru

- 11.** Mae gwasanaethau radio yng Nghymru yn cynnwys y canlynol yn bennaf:
- **Gwasanaethau radio'r BBC:** y ddau wasanaeth BBC nad ydynt yn rhai rhwydwaith (h.y. nid ydynt yn cael eu darlledu ledled y DU gyfan) a ddarlledir yng Nghymru yw Radio Cymru a Radio Wales;
 - **Radio masnachol:** 20 o orsafoedd radio masnachol lleol sydd wedi'u trwyddedu i wasanaethu cymunedau ledled Cymru ac sy'n cael eu rhedeg gan bedwar cwmni radio masnachol sydd â gweithrediadau yng Nghymru - Global, Communicorp, Broadcasting Nation a Wireless Group. Yn ogystal â'r gwasanaethau hyn ceir 30 o orsafoedd radio masnachol sy'n darlledu i'r DU gyfan, ar radio digidol yn bennaf, ac mae'r gallu i'w derbyn yn dibynnu ar y lleoliad.
 - **Radio cymunedol:** mae naw gorsaf radio cymunedol ar yr awyr yng Nghymru.
 - Yn ogystal, mae gan wrandawyr yng Nghymru amrywiaeth o opsiynau ar gyfer gwranddo ar wasanaethau radio eraill, gan gynnwys gorsafoedd rhwydwaith y BBC a, thrwy'r rhyngwyd, gorsafoedd eraill yn y DU a thu hwnt.

12. Nid oes gan y Cynulliad unrhyw gymhwysedd dros reoleiddio gwasanaethau radio, sy'n parhau i gael ei gadw yn San Steffan. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn gallu darparu cyllid grant, fel y mae wedi ei wneud yn flaenorol, ym maes radio cymunedol.

13. Ofcom yw'r rheoleiddiwr cyfathrebu yn y DU. Mae'n rheoleiddio'r sectorau teledu, radio a fideo ar alw, telathrebu llinell sefydlog, ffonau symudol, gwasanaethau post, yn ogystal â'r tonfeddi y mae dyfeisiau diwifr yn gweithredu arnynt.

Argaeledd gorsafoedd radio yng Nghymru²



14. Mae 73 o orsafoedd yn darlledu ar DAB yng Nghymru, er nad yw pob un ar gael ar hyn o bryd ym mhob rhan o Gymru. Maent yn cynnwys 13 o'r BBC, 30 o orsafoedd ar yr amblecsau Sound Digital a Digital One a 30 o orsafoedd masnachol ar amblecsau DAB lleol.

15. Fodd bynnag, ni fydd yr holl orsafoedd digidol hyn ar gael ar DAB i wrandawyr ledled Cymru. Mae cyfran yr aelwydydd o fewn yr ardal ddarlledu ar gyfer pob math o orsaf yn amrywio, ac mae yna wahanol wasanaethau ar bob un o'r amblecsau DAB lleol sy'n gwasanaethu gwahanol rannau o Gymru. Mae deg gorsaf radio gymunedol ar yr awyr yng Nghymru. Mae 37 o orsafoedd analog pellach ar gael yng Nghymru at ei gilydd.

16. Mae Ofcom yn adrodd yn flynyddol ar argaeledd a'r defnydd o wasanaethau radio digidol ar draws y DU. Yn yr adroddiadau hyn, defnyddir "radio digidol" yn ei ystyr ehangaf i gynnwys pob llwyfan a thechnoleg sy'n galluogi gwrandawyr i gael mynediad at wasanaethau radio digidol.

² Ffynhonnell: Ofcom 2017 Communications Market Report, Radio and audio content


2. Radio masnachol

Y cefndir

17. Mae yna 20 o orsafoedd radio masnachol lleol sydd wedi'u trwyddedu i wasanaethu cymunedau ledled Cymru. Ar ben y gwasanaethau hyn ceir 30 o orsafoedd radio masnachol ledled y Deyrnas Unedig, ar radio digidol yn bennaf, gyda'r gallu i'w derbyn yn dibynnu ar y lleoliad. Ceir rhestr o'r gorsafoedd hyn yn Atodiad D.

18. Mae pedwar cwmni radio masnachol sy'n gweithredu yng Nghymru - Global, Communicorp, Nation Broadcasting a Wireless Group.

Refeniw radio masnachol lleol 2016³



19. Fesul pen, cynyddodd refeniw £0.33 mewn termau real rhwng 2015 a 2016. Er gwaethaf y twf mawr hwn, gan Gymru mae'r refeniw masnachol lleol lleiaf y pen o blith holl wledydd y DU.

Dadroleiddio radio masnachol - Effaith ar gynulleidfaedd Cymru

20. Mae Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) Llywodraeth y DU yn bwriadu dadroleiddio agweddau ar radio masnachol. Mae'n dadlau bod hyn yn angenrheidiol er mwyn galluogi gwasanaethau masnachol analog i gystadlu â gwasanaethau ar-lein a DAB-yn-unig, nad ydynt yn cael eu rheoleiddio i'r un graddau.

³ Ffynhonnell: Ofcom 2017 Communications Market Report, Radio and audio content - www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0012/105006/wales-radio-audio.pdf -

21. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor hwn, crynhodd DCMS y cyd-destun ar gyfer y dadreoleiddio arfaethedig hwn fel a ganlyn:

“Mae sector radio masnachol y Deyrnas Unedig yn wynebu nifer o sialensiau pwysig dros y ddegawd nesaf, o dwf ac ymlediad ffyrdd newydd o fanteisio ar gynnwys sain ac nid y lleiaf, yr her sy'n deillio o wasanaethau ar-lein, ynghyd â'r angen i fuddsoddi mewn gwasanaethau cynnwys newydd a manteisio ar lwyfannau newydd er mwyn cynnal ei gynulleidfaedd.”

22. Ym mis Chwefror 2017, cyhoeddodd DCMS ei ymgynghoriad ar ddadreoleiddio radio masnachol. Ym mis Rhagfyr 2017, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei hymateb.⁴ Mae cynigion y Llywodraeth yn cynnwys:

- Newid strwythur trwyddedu i roi mwy o ryddid i gwmnïau radio masnachol weithredu eu busnesau yn y ffordd sy'n gweddu orau iddynt.
- Dileu gofynion i Ofcom reoleiddio fformatau cerddoriaeth ar radio masnachol,
- Llacio'r rheolau presennol sy'n dweud bod rhaid i orsafoedd radio masnachol analog lleol gynhyrchu cyfran sylweddol o'u cynnwys yn lleol.
- Ni ddylai'r gofynion fod yn uwch yn y gwledydd. Dywedodd Llywodraeth y DU:
 - having such a power may disadvantage local stations in the nations and that a better approach is for Ofcom to have regard to the needs of all UK audiences in setting the requirements on a UK basis.
- Dylid parhau â'r gofynion i ddarlledu newyddion a gwybodaeth leol arall sydd wedi'u paratoi'n lleol.

23. Ymhelaethodd Neil Stock o Ofcom ar y cydbwysedd rhwng rheoleiddio a dadreoleiddio yn y dull gweithredu arfaethedig pan roddodd dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor:

“commercial radio will still be required to deliver local news, local weather, local travel. And I believe the Government has also said they want that to be locally made. So, in other words, they can't pump it in from somewhere else, which, actually, is a change to some stations that

⁴ www.gov.uk/government/consultations/commercial-radio-deregulation-consultation

do that currently. So, in other words, that’s an increase in regulation. So, in what is, overall, a set of deregulatory initiatives, there are actually some areas where there will be an increase in regulation.

In terms of local news, I think what we found, over the years, is actually doing local news well and doing it properly is quite expensive and quite difficult. Community radio stations, on the whole, struggle to provide a good local news service. They deliver social gain in all sorts of other ways and provide training and volunteering and all that sort of stuff. Doing local news is actually quite difficult, which is why I think there’s an intention to maintain a regulation on commercial radio to do it on the basis that commercial radio should have the funding ability to actually provide proper local journalism in a way that community radio might struggle to do.”⁵

24. Y cam nesaf yw i DCMS ddechrau’r gwaith manwl i ddatblygu strwythur deddfwriaeth newydd a chyflwyno deddfwriaeth cyn bod angen adnewyddu’r trwyddedau analog yn 2022. Yn y cyfamser, mae’r Llywodraeth wedi dweud y byddai’n cefnogi unrhyw ymdrechion gan Ofcom i ystyried a oes cyfle i wneud newidiadau i’w reolau a’i ganllawiau ei hun yn hytrach na diwygiadau mwy hirdymor. Ar hyn o bryd mae Ofcom yn ymgynghori ar newidiadau arfaethedig i ganllawiau lleolrwydd Ofcom ar gyfer gorsafoedd radio masnachol lleol, a fyddai’n gweld newidiadau i:

- yr “ardaloedd cymeradwy” yr ystyrir bod rhaglenni wedi cael eu gwneud yn lleol oddi fewn iddynt;
- lleiafswm yr oriau sydd wedi’u gwneud yn lleol y dylai pob gorsaf eu darparu, a phryd yn yr amserlen y dylid darlledu’r rhaglenni hyn.

25. Clywodd y Pwyllgor gan Bwyllgor Cynghori Ofcom yng Nghymru. Dywedodd fod y corff yn cefnogi:

“the broad thrust of the proposed relaxation of current regulatory provision, including the removal of existing music format requirements and Ofcom’s role in ensuring a range of choice in radio services.”

26. Fodd bynnag, nododd ei bod hi’n hanfodol cynnal y ddarpariaeth newyddion a gwybodaeth a bod hyn yn arbennig o hanfodol yng Nghymru.

⁵ Cofnod y Trafodion 15 Chwefror 2018

Newyddion Cymru gyfan

27. Dadleuodd Pwyllgor Cynggori Ofcom yng Nghymru y dylid cyflwyno'r cysyniad rheoleiddiol o newyddion "Cymru gyfan". Ar hyn o bryd, mae'r rheoliadau cyfredol a chynigion DCMS yn ymdrin â newyddion lleol a newyddion DU gyfan, ac yn hepgor yr haen ganol sef gwledydd unigol y DU. Dadleuodd Pwyllgor Cynggori Ofcom fod darparu newyddion yn arbennig o bwysig i fywyd dinesig yng Nghymru.

28. Ymhelaethodd Glyn Mathias ar y pwynt hwn mewn tystiolaeth lafar:

"Our complaint against the DCMS response is that they pay absolutely no attention to all-Wales news, that the legislation as it exists refers only to UK national news and local news, whereas, in Wales, as we know, there is a demand for, and an increasing need for, all-Wales news, Welsh news, and we believe that that should be an obligation in Wales, something which they have dismissed. And they dismissed our previous evidence to that effect. And we believe that that is absolutely vital.

...

Given that the legislative requirement isn't there for Welsh news at the moment, or Wales news, the DCMS is planning fresh legislation in the next couple of years or so to impose the extra obligation on digital platforms of a news requirement. And, in that process, we regard this as a golden opportunity to amend the legislation, so that, in Wales, and in Scotland and Northern Ireland for that matter, there should be a reference to Welsh news as an ingredient of that obligation. That does not exist at the moment. It does appear in some of the formats for commercial radio stations, but it's not there in the legislation, and here is a chance for it to be included.

...

I think the Welsh Government could very usefully pursue that argument, but I think this committee could also pursue it and make representations to the DCMS."⁶

29. Mae Steve Johnson o Brifysgol De Cymru wedi dweud bod y diffyg cyfeiriad at newyddion Cymru gyfan yng nghynigion DCMS yn destun pryder, a gofynnodd

⁶ Cofnod y Trafodion 15 Chwefror 2018

yn rhethregol ble y bydd cynnwys sy'n canolbwyntio ar Gymru yn cael ei gynhyrchu, heblaw gan y BBC.

30. Nododd, os yw gorsafoedd masnachol yn colli gofynion lleolrwydd:

“community radio stations in Wales may well have a vital role to play, in the accumulation and provision of genuine local news and information.”

31. Gwnaeth Nation Broadcasting y pwyntiau a ganlyn yn ei dystiolaeth:

- Mae o blaid dileu'r rheoliadau ar fformatau cerddoriaeth ar orsafoedd analog.
- Mae'n cefnogi cael newyddion a gwybodaeth leol fel y meincnod rheoleiddiol, ar yr amod na fydd mwy o ofynion ar weithredwyr nag sydd yna ar hyn o bryd.
- Mae'n dweud y dylid rhoi statws cyfartal i wledydd y DU heb faich ychwanegol o ran newyddion/rhaglennu. Mae'n cyfeirio at y gwariant is y pen yn y gwledydd heblaw Lloegr fel rheswm pam na ddylent fod yn destun rhagor o ofynion rheoleiddiol.
- Dylai newyddion penodol i bwerau datganoledig gael ei ystyried yn rhan o ymrwymadau newyddion lleol ar orsafoedd ym mhob gwlad.

32. Ymhelaethodd Martin Mumford o Nation Broadcasting ar ei farn ar newyddion Cymru gyfan pan roddodd dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor:

“I think it's a massive deficiency in current regulation that news specific to the region is not viewed by Ofcom as relevant local content on our services. It's something that, at Nation Broadcasting, we looked at carefully, and we took it on ourselves to create a bulletin called News for Wales, which we get no credit for from a regulatory perspective. And, actually, I think that the market's already providing a great deal of content around Wales, not because we have to, but because it's the right thing to do in terms of the audiences that we broadcast to.”⁷

33. Roedd Global yn croesawu cynigion Llywodraeth y DU.

⁷ Cofnod y Trafodion 26 Ebrill 2018

34. Dywedodd Communicorp ei fod yn croesawu dileu'r rheoliadau ynghylch fformatau cerddoriaeth a chynyrchiadau lleol yng nghynigion DCMS. Dywedodd y byddai'n:

“expect any changes to future news regulation to be focused on output and local relevance rather than production.”

35. Dywedodd Marc Webber fod y cynigion hyn yn peri:

“more of a threat to Welsh content than offering a chance to enhance it...whilst the reforms secure the need for local news content, it must be understood that there is more to Welsh life than news.”

36. Dywedodd Mr Webber hefyd:

“the monopoly held by Global and Communicorp groups [is] holding back market development [in Wales].”

37. A hefyd:

“The decision by the Global/Communicorp group to cut local investment in content has led to a race to the bottom by the other groups that remain in Wales.”

38. Ymhelaethodd ar y farn hon yn ei dystiolaeth lafar:

“I have my concerns [...] that we do not have a plurality of commercial radio stations in Wales, because I think there has been a chance for two radio groups—and I will be nice about them, genuinely; they're sitting next to me now—to basically take the majority of the market in both listenership and frequencies. Now, to be clear, I do not blame Global and I do not blame Communicorp for buying licences and doing their business. That's their job. I actually, genuinely believe there's been a market failure in commercial radio in Wales, and I believe that's down to Ofcom. I believe that Ofcom have not looked at the rules that are passed down, UK wide, from the Department for Digital, Culture, Media and Sport and do not look at how that has played out in the various nations of the UK.

So, if you look at Northern Ireland, for example, they're under the same broadcasting rules as us, their revenue from local radio continues to rise, but with only 1.5 million population they have 11 local radio stations to choose from. The majority of them, if not all of them, are 24/7 run from Northern Ireland with Northern Irish voices and Northern Irish people

on them, whereas in Wales, the majority of the radio listening that occurs is done to output that's from London, so it's either BBC Radio 2 or it's Heart or Capital in their various forms, with the majority of the programming networked from London.

...

I look at the UK-wide regulations that have been applied by Ofcom and the DCMS, and there is only one nation amongst the constituent parts of the UK where I see market failure, and it's Wales.”⁸

39. Nododd hefyd y dirwedd anodd sydd ohoni ar gyfer darlledwyr radio masnachol, sy'n cystadlu am wrandawyr yn erbyn cystadleuwyr digidol nad ydynt yn cael eu rheoleiddio:

“Yes, I'd just like to add that [...], actually, Heart and Capital's competitors now are not necessarily Swansea Sound or, to a certain extent, Nation Radio. There's Spotify, and they are podcasting, and people in Wales are actively choosing to plug their iPhones into their car stereos every morning and ignoring any FM signal at all. I think that's something that I'm absolutely conscious about: that if we talk about how we make Heart more Welsh, or Global more Welsh, let's talk about how we make Spotify more Welsh as well, because that's the next generation of our audience.”

Y Gymraeg

40. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, awgrymodd Mr Webber pe bai gorsafoedd radio masnachol yn cyfuno eu cynnwys Cymraeg, gallent herio BBC Cymru.

41. Roedd papur y Gweinidog yn dweud:

“Fel Llywodraeth, ni fyddem yn dymuno gweld y rheolau lleolrwydd cyfredol ar radio masnachol yn cael eu llacio ymhellach neu'n cael eu dileu. Mae'n hanfodol bod lefel briodol o ddarpariaeth leol, yn benodol, newyddion lleol. Mae hyn hyd yn oed yn bwysicach yng Nghymru o ystyried gwendid y cyfryngau print yng Nghymru a'r diffyg sylw i faterion Cymreig ym mhapurau newyddion y DU.”

42. Gwnaeth y pwyntiau canlynol am bwysigrwydd rheoleiddio radio masnachol i sicrhau cynnwys Cymraeg hefyd:

⁸ Cofnod y Trafodion 26 Ebrill 2018

“Pan fydd trwyddedau teledu a radio yn cael eu dyfarnu neu’n cael eu hadolygu ar gyfer gorsafoedd yng Nghymru, dylid rhoi ystyriaeth i natur ddwyieithog Cymru a phwysigrwydd y Gymraeg yng nghyd-destun y nod sydd gan Lywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 drwy bennu yn y cytundeb y bydd nifer penodol o oriau’n cael eu darlledu yn Gymraeg ynghyd â datganiad am gynnwys ar y we yn Gymraeg, megis testun, ffrydiau a chlipiau fideo.

Dylid gosod amrywiaeth ieithyddol, yn enwedig o ran y Gymraeg mewn gwasanaethau i Gymru, fel targed wrth ddyfarnu a rheoleiddio gwasanaethau i Gymru.”

43. Fodd bynnag, wrth roi tystiolaeth lafar, roedd y Gweinidog yn ymddangos yn hollol bendant ei farn na allai Llywodraeth Cymru ddylanwadu ar Lywodraeth y DU ar y polisi ar gyfer rheoleiddio radio masnachol yn y dyfodol:

“... mae polisi Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn hollol glir—maen nhw’n mynd i wneud hynny, ac felly beth bynnag ddywedaf i neu y dywedwch chi bydd yna ddim newid yn hynny. Rwy’n meddwl bod yn rhaid i ni fod yn realistig am y pethau yma, oherwydd os ydym ni yn delio â meysydd sydd heb eu datganoli, yna mae’n rhaid cael ffordd wahanol o ddylanwadu ac o sicrhau buddiannau Cymru o fewn y drefn yna. Dyna rydym ni wedi ceisio ei wneud fel Llywodraeth, ac rydw i wedi bod yn ymwneud a’r broses yma rŵan ers chwe mis.

Rŷm ni wedi ceisio dylanwadu drwy sicrhau bod cynrychiolaeth gan Gymru ar y cyrff sydd yn rheoleiddio—Ofcom yn arbennig, wrth gwrs, ac i raddau y BBC. Mae hynny wedi cael ei wneud yn llwyddiannus, cyn fy nghyfnod i yn y swydd, ac efallai y byddai Hywel yn hoffi sôn rhywbeth am hynny. Ond ni allwn ni, fel Llywodraeth, gymryd unrhyw benderfyniad sy’n effeithio ar bolisi darlledu heblaw ein bod ni’n gweithio drwy sicrhau cynrychiolaeth gref o Gymru ar fwrdd Ofcom, ac mae’r broses yna yn digwydd ar hyn o bryd.”⁹

44. Ymhelaethodd ar y farn hon dros gyfnod y sesiwn:

“Nid ydw i’n hoff o’r syniad yma mai swydd Gweinidogion y Goron yng Nghymru ydy mynd, â’n capiau yn ein dwylo neu ein capiau ar ein pennau neu le bynnag, i ofyn i Weinidogion DCMS, ‘A wnewch chi plis gofio am Gymru?’, achos nid dyna’r ffordd i weithio. Rydw i’n meddwl

⁹ Cofnod y Trafodion 26 Ebrill 2018

mai'r ffordd i weithio ydy bod gan Gymru gynrychiolaeth statudol gadarn yng nghyrrff rheoleiddio y Deyrnas Unedig. Dyna sydd gyda ni yn y BBC. Dyna sydd gyda ni bellach yn Ofcom.”

Ein barn ni

Agwedd y Gweinidog

Mae agwedd y Gweinidog tuag at bolisi radio yn ddrislyd ac yn siomedig. Er gwaethaf rhoi tystiolaeth i ni yn amlinellu'n glir safbwyntiau Llywodraeth Cymru ar oblygiadau polisi darlledu ar nifer o faterion datganoledig – gan hyd yn oed awgrymu y dylid ystyried polisi Llywodraeth Cymru (miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050) wrth drwyddedu gorsafoedd radio masnachol - roedd y Gweinidog yn ymddangos yn amharod i fwrw ymlaen â'r safbwyntiau hyn y tu hwnt i benodi aelod o Gymru i fwrdd Ofcom. Ymddengys fod hyn yn enghraifft glir o ymateb pan mae'n rhy hwyr; ceisio dylanwadu ar sut mae Ofcom yn arfer ei bwerau a'i ddyletswyddau, yn hytrach na cheisio llunio'r pwerau a'r dyletswyddau hynny.

Cynnwys Newyddion

Mae dyfodiad datganoli wedi amlygu'r angen i ohebu newyddion Cymreig ei natur fel bod pobl Cymru yn ymwybodol o benderfyniadau a wneir yn eu henw ac fel bod gwneuthurwyr penderfyniadau yng Nghymru, yn enwedig gwleidyddion, yn cael eu dal i gyfrif. Roedd nifer o'r rhai a roddodd dystiolaeth yn dadlau o blaid cael trwyddedau radio masnachol yng Nghymru i gynnwys gofyniad i roi sylw i newyddion a materion cyfoes o Gymru, yn ogystal â newyddion lleol a'r DU.

Mae hwn yn gysyniad a ddylai fod yn gymwys yn ehangach i holl wledydd a rhanbarthau'r DU. Fodd bynnag, fel yr ydym wedi dadlau mewn adroddiadau blaenorol,¹⁰ gellid dadlau bod yr angen am hyn yn fwy yng Nghymru a chredwn y dylai DCMS ddefnyddio'r diwygiadau arfaethedig i radio masnachol i gyflwyno gofyniad rheoleiddiol ar orsafoedd radio masnachol yng Nghymru i adrodd ar newyddion Cymreig ei natur yn ogystal â'r gofynion cyfredol ar gyfer darpariaeth newyddion lleol a'r DU.

Datblygu'r farchnad

Clywsom rywfaint o dystiolaeth fod cyfran helaeth o'r farchnad radio masnachol yng Nghymru yn nwylo nifer fach o gwmnïau cymharol fawr, megis Global,

¹⁰ Y Penawdau

Communicorp a Nation, mwy felly na radio masnachol mewn rhannau eraill o'r DU. Er enghraifft, tynnwyd ein sylw at y gwrthgyferbyniad rhwng Cymru a Gogledd Iwerddon, sydd â marchnad radio masnachol mwy amrywiol o lawer yn ôl pob golwg. Mae p'un ai yw sefyllfa'r farchnad yng Nghymru yn llesteirio datblygiad y farchnad yng Nghymru yn rhywbeth i drafod. Mae'r nifer cymharol fach o gwmnïau sy'n weithgar yng Nghymru yn awgrymu bod hwn yn faes y dylai Ofcom edrych arno'n fanylach i weld sut y gellir annog mwy o amrywiaeth a pherchenogaeth yn y farchnad.

Ymgynghoriad Ofcom ar leolrwydd ar radio masnachol.

Tuag at ddiwedd ein Hymchwiliad, dechreuodd Ofcom ymgynghoriad ar gynigion i ddiwygio canllawiau ar gyfer gorsafoedd radio masnachol lleol mewn perthynas â'r "ardaloedd cymeradwy", y mae rhaglenni sy'n cael eu gwneud ynddynt yn cael eu hystyried yn rhai sydd wedi'u gwneud yn lleol, a phryd y dylid darlledu'r rhaglenni hyn yn yr amserlen. O ganlyniad i'r dystiolaeth a gawsom, roedd y Pwyllgor yn pryderu am y ddwy set o gynigion.

Mae'n bosibl y bydd y cynnig i leihau lleiafswm yr oriau a wneir yn lleol y mae'n rhaid i orsafoedd masnachol lleol eu darlledu yn paratoi'r ffordd ar gyfer homogoneiddio cynyddol o gynnwys, gan y bydd gorsafoedd yn debygol o gymryd y cyfle i leihau ymhellach nifer yr oriau o gynnwys lleol y maent yn eu cynhyrchu.

Byddai'r cynigion i uno tair "ardal gymeradwy" i un yng Nghymru yn caniatáu i gwmnïau sy'n berchen ar sawl trwydded leol newid rhaglenni a gynhyrchir mewn un rhan o Gymru i ganolfan fwy yn rhywle arall yng Nghymru.

Yn ogystal ag arwain at golli swyddi o bosibl, wrth i gwmnïau fanteisio ar y cyfle i ganoli gwaith cynhyrchu, gallai gael effaith andwyol ar gymunedau gwledig, gyda threfi a dinasoedd mwy yn cael eu dewis ar gyfer cynhyrchu mwy canolog. Gallai hyn olygu hefyd y bydd cynhyrchu'n symud i ffwrdd o ardaloedd â mwy o siaradwyr Cymraeg ac yn cael effaith andwyol ar gyfanswm y cynnwys Cymraeg.

Ymatebodd y Pwyllgor i'r ymgynghoriad, gan alw ar Ofcom i ailasesu'r gostyngiadau arfaethedig i nifer yr ardaloedd cymeradwy a'r oriau a wneir yn lleol. Dadleuodd y Pwyllgor:

"In 2016 Wales had the smallest local commercial revenue per head of population of any UK nation. As it would seem that there is less of a market incentive to provide local radio content in Wales, such content must be secured by regulation. Whereas a relaxation in local content requirements may not lead to a diminution of local content in areas well-served by a competitive market,

this is simply not the case in Wales. The small number of companies that dominate commercial radio in Wales will see the ability to reduce and centralise local content as a cost-saving opportunity: at the loss of local, distinctive content.”

Yna cyhoeddodd Ofcom ymgynghoriad diwygiedig ar ganllawiau lleolrwydd, a oedd yn dweud:

“Following careful consideration of the 48 consultation responses, we are now amending our localness guidelines to include the following new minimum expectations:

Local FM stations that provide local news at regular intervals throughout the day should air at least three hours of programming each weekday between 6am and 7pm which has been made in the local (or approved) area.

Local FM stations that provide local news only at breakfast and drivetime should air at least six hours of programming each weekday between 6am and 7pm which has been made in the local (or approved) area.

The above amendments mean that there is no longer an expectation under our localness guidelines that weekday breakfast will be locally-made, or that locally-made programmes will be provided at the weekends or on public holidays.”

O ran ardaloedd cymeradwy, newidiwyd y cynnig diwygiedig. Yn hytrach na lleihau nifer yr ardaloedd cymeradwy yng Nghymru o dri i un, roedd y cynnig diwygiedig yn awgrymu dau.

Mewn ymateb, ysgrifennodd y Pwyllgor:

“The changes that are now proposed go some way to addressing our concerns but our fundamental point remains in relation to the proposed reduction of approved areas in South Wales from two to one.

We continue to have concerns that as well as the economic and social impact of job losses, removing the boundary between South East and South West Wales could potentially reduce the extent to which radio stations are embedded in – and reflect – the areas to which they broadcast, leading to a further homogenisation of content. The proposed removal of the boundary between South East and South West Wales (which contains very significant Welsh-speaking areas) continues to be a cause for concern that Welsh-speaking audiences will lose out.”

Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu dadansoddi gan Ofcom ar hyn o bryd.

Argymhelliad 1. Dylai'r Gweinidog ailasesu sut mae'n mynd ati i ymgysylltu â DCMS dros ddadreoleiddio radio masnachol a dylai geisio llunio pwerau a dyletswyddau Ofcom yn ogystal â cheisio dylanwadu ar y materion y mae'n eu hystyried.

Argymhelliad 2. Dylai DCMS ystyried cyflwyno gofyniad rheoleiddiol i orsafoedd radio masnachol yng Nghymru adrodd ar newyddion Cymreig ei natur, yn ogystal â newyddion lleol a'r DU fel rhan o'i diwygiadau ar gyfer radio masnachol.

Argymhelliad 3. Dylai Ofcom archwilio cystadleuaeth yn y diwydiant radio masnachol yng Nghymru i weld sut y gellir annog mwy o amrywiaeth a pherchenogaeth yn y farchnad.

Argymhelliad 4. Rydym yn argymhell, o ran Cymru, y dylai Ofcom gadw'r "ardaloedd cymeradwy" cyfredol a'r nifer gofynnol o oriau sydd wedi'u gwneud yn lleol y dylai gorsafoedd radio masnachol lleol eu darparu.

3. Radio cymunedol

Cefndir

45. Ar hyn o bryd, mae naw gorsaf radio gymunedol ar yr awyr yng Nghymru – Calon FM, Tudno FM, BRfm, Radio Tircoed, Radio Glan Clwyd, Môn FM, Radio Cardiff, Bro Radio a GTFM. Cafodd radio cymunedol ei gyflwyno yn sgil deddfwriaeth, er mwyn dod â haen newydd o ddarlledu radio yn y Deyrnas Unedig, yn canolbwyntio'n benodol ar ymgysylltu â'r gymuned. Mae'r gorsafoedd yn ddielw ac yn canolbwyntio ar ddarparu budd cymdeithasol, gan weithio i gynnwys y gymuned leol yn y gwaith o redeg y gwasanaeth. Mae DCMS wedi datgan:

“The take-up of community radio licences in Wales is less in comparison to other nations. This could be for a number of reasons, such as lack of willing volunteers to run the stations.”

46. Gall pob gorsaf ddefnyddio hysbysebion a nawdd, er bod rheolau ar faint o incwm y gallant ei gael o'r ffynonellau hyn (rhaid i incwm uwchlaw £15,000 o hysbysebion a nawdd gael ei gydbwyso ag incwm ychwanegol o ffynonellau eraill). Mae nifer fach o orsafoedd cymunedol – os ydynt yn gorgyffwrdd â gwasanaethau masnachol bach nad yw eu stiwdios wedi'u cydleoli â gorsafoedd eraill - wedi'u cyfyngu i uchafswm o £15,000 o hysbysebion a nawdd.

47. Yn y gorffennol, roedd gan Lywodraeth Cymru Gronfa Radio Cymunedol, a fu'n weithredol rhwng 2008 a 2014. Dyfarnwyd grantiau i naw gorsaf radio gymunedol yn 2013-14. Yn ystod y blynyddoedd ariannol hyn, dosbarthodd Cronfa Radio Cymunedol Llywodraeth Cymru £100,000 y flwyddyn i orsafoedd radio a oedd wedi cael trwydded gymunedol lawn am bum mlynedd gan Ofcom. Sefydlwyd y Gronfa er mwyn helpu i dalu costau craidd rhedeg gorsaf radio gymunedol, gan gynnwys rheoli, gweinyddu, codi arian, gwaith yn y gymuned a chymorth gwirfoddolwyr.

48. Mae papur y Gweinidog yn nodi fel a ganlyn:

“Oherwydd toriadau i gyllidebau ar draws y portffolio Diwylliant a Chwaraeon bryd hynny, roedd rhaid gwneud penderfyniadau anodd ynghylch cyllido, ac yn anffodus felly, daeth y Gronfa i ben.”

49. Mae DCMS yn ariannu Cronfa Radio Cymunedol ledled y DU,¹¹ sy'n cael ei gweithredu gan Ofcom. Mae ganddi gyllideb flynyddol o £ 400,000. Mae tystiolaeth DCMS yn nodi bod dadansoddiad diweddaraf Ofcom yn awgrymu bod gostyngiad wedi bod yn y cyllid grant arall sydd ar gael ar gyfer radio cymunedol, gyda gorsafoedd yn dibynnu mwy ar wirfoddolwyr a chyllid maent yn ei gynhyrchu eu hunain.

50. Mae DCMS wrthi'n ymgynghori ar gynnig i ganiatáu i Ofcom drwyddedu DAB ar raddfa fach, a fyddai'n briodol ar gyfer radio cymunedol.

Radio Beca

51. Does dim un orsaf radio gymunedol sy'n darlledu'n uniaith Gymraeg. Cafodd trwydded ei dyfarnu gan Ofcom i Radio Beca ym mis Mai 2012 i wasanaethu Ceredigion, Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin - roedd yr orsaf yn bwriadu darlledu yn Gymraeg yn bennaf. Fodd bynnag, cafodd y drwydded ei diddymu dair blynedd wedyn heb i'r orsaf ddechrau darlledu.

52. Roedd yna bryder hefyd mai £20,000 yn unig yr oedd Radio Beca wedi llwyddo i'w godi, o gyfanswm o £320,000 a oedd ei angen i roi'r orsaf ar yr awyr.

53. Soniodd Steve Johnson (Prifysgol De Cymru) am dynged Radio Beca yn ei dystiolaeth:

“It had been agreed by Ofcom that Radio Beca would be given a much wider broadcast range than the standard five-kilometre radius, in order for it to serve pockets of the Welsh-speaking community across a range of small towns, villages and hamlets in Carmarthenshire, north Pembrokeshire and Ceredigion, west Wales. This was a welcome and imaginative initiative on the part of Ofcom. However, in reality, that would not, in itself, have been enough to keep Radio Beca on-air, as restrictions on commercial income generation have a disproportionate and highly restrictive impact on community radio stations based, like Radio Beca, in rural, less affluent parts of Wales”

Tystiolaeth

54. Roedd Steve Johnson (Prifysgol De Cymru) yn cefnogi dod â Chronfa Radio Cymunedol Llywodraeth Cymru yn ôl, gan ddadlau bod manteision radio cymunedol yn cynnwys caniatáu cyfranogiad, ehangu lluosogrwydd y cyfryngau a

¹¹ www.ofcom.org.uk/tv-radio-and-on-demand/information-for-industry/radio-broadcasters/community-radio-fund

cheisio rhoi llwyfan i leisiau ar y cyrion sy'n mynd heb eu clywed yn aml. Dywedodd fod cyfyngiadau o fewn sector radio masnachol a sector radio y BBC yng Nghymru yn creu cyfle unigryw i radio cymunedol yng Nghymru a bod lleihau rhagor ar y cyfyngiadau ar refeniw masnachol radio cymunedol yn hanfodol, os yw'r sector i oroesi yng Nghymru. Ymhelaethodd ar werth radio cymunedol yn ei dystiolaeth lafar:

“Mae radio cymunedol yn rhoi'r cyfle hwn i chi gael y wybodaeth gynhenid, sylfaenol gan y cymunedau gwirioneddol a llawer o straeon na fyddant byth yn cael eu cwmpasu sy'n arwyddocaol iawn yn lleol. Mae cyfle i radio cymunedol, yn fy marn i, fod yn hwb i wybodaeth ar gyfer cymunedau lleol. Credaf y byddai budd mawr i gymunedau Cymru pe byddai hynny'n cael ei gefnogi.”¹²

55. Mewn tystiolaeth lafar mae Neil Sloan, Communicorp, yn dadlau yn erbyn adfer y Gronfa Radio Cymunedol os codwyd cyfyngiadau ar refeniw radio cymunedol hefyd, gan nodi:

“If the restrictions are removed from how much revenue can come in, to be then having support from another angle is a bit incongruous.”¹³

56. Awgrymodd Martin Mumford o Nation y gallai cronfa darlledu gwasanaeth cyhoeddus gystadleuol gynnig gwell gwerth am arian na chronfa benodol ar gyfer radio cymunedol.

57. Wrth ymateb i gwestiynau, dywedodd Mr Johnson y byddai annog Llywodraeth Cymru i ddefnyddio radio cymunedol ar gyfer ymgyrchoedd gwybodaeth gyhoeddus yn wych ac yn fuddiol i'r ddwy ochr.

58. Awgrymodd Mr Johnson hynny hefyd, ond bod gorsafoedd radio cymunedol yn ei chael hi'n anodd cydweithio, gan fod y rheini sy'n gysylltiedig yn brysur iawn yn rhedeg eu gorsafoedd:

“I think the way forward for that ... is through just coming together and sharing and syndication and networking and collaboration.”

59. Ymhelaethodd Marc Webber ar y diffyg cydweithio yn y sector radio cymunedol yn ei dystiolaeth lafar:

¹² Cofnod y Trafodion 22 Mawrth 2018

¹³ Cofnod y Trafodion 26 Ebrill 2018

“Any power that you guys can give to marketing that group of people and supporting that group of people, morally more than financially, if you like, would be great.”¹⁴

60. Nododd nifer o'r ymatebwyr nad yw RAJAR - y cwmni sy'n mesur ffigurau gwrandio radio - yn darparu ffigurau cynulleidfa ar gyfer radio cymunedol. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd mesur pa mor iach yw'r sector, ac mae'n ei gwneud yn anos i orsafoedd radio cymunedol werthu gofod hysbysebu.

61. Nododd Marc Webber y problemau roedd diffyg ffigurau RAJAR yn eu hachosi i radio cymunedol, ond dywedodd yn ei dystiolaeth lafar:

“I'm not a person saying that anybody should be given a Government handout or an Assembly handout for that RAJAR situation. If that money is available, great, but I don't think it's the way it should go.”

62. Roedd Martin Mumford hefyd yn amheus ynghylch gwerth cael ffigurau RAJAR ar gyfer radio cymunedol:

“To an extent, this is a bit of a red herring because community radio stations are incredibly small. I run some very small local radio stations. The reason we're in RAJAR is to access national advertising. National advertisers have very specific ways that they want to purchase and have reporting around their advertising. It's a completely different type of business to knocking on a local business person's door in Wales and selling radio advertising. So, in some of our smallest stations, the cost of the survey is roughly equivalent to what we receive in national advertising. I think, from a commercial perspective, community radio may not like what the result would be if they were able to access RAJAR.”¹⁵

63. Mae Nation yn dweud eu bod nhw o blaid newid yn llwyr y rheoliadau sy'n ymwneud â radio cymunedol er mwyn creu cystadleuaeth decach rhwng radio cymunedol a radio masnachol, ac y dylai gorsafoedd cymunedol fod yn rhydd i ddod yn wasanaethau cwbl fasnachol.

64. Mewn tystiolaeth lafar, dywedodd Martin Mumford o Nation:

¹⁴ Cofnod y Trafodion 16 Mai 2018

¹⁵ Cofnod y Trafodion 26 Ebrill 2018

“I think it’s very difficult in certain areas to see the difference between a local commercial radio station and a community radio station.”

65. Dadleuodd Mel Booth o Global Radio o blaid cynnal y gwahaniaeth rhwng radio masnachol a radio cymunedol pan roddodd dystiolaeth lafar:

“Community radio stations are staffed by volunteers, and therefore the mechanism of their funding needs to be considered differently to a professional radio station that employs people. So, I think there is a need for it to be considered differently.”

66. Adleisiwyd y farn hon gan Neil Sloan, Communicorp, a ddywedodd:

“I think that, actually, what the community radio station does, the clue’s in the title—it’s for the community—so it shouldn’t, in my opinion, be swallowed up by commercial stations, because then you’re just extending the reach of commercial stations and not having that distinction.”

67. Noda Marc Webber nad oes gennym ni amcan o gwbl sut mae radio cymunedol yn dod ymlaen yng Nghymru gan na all radio cymunedol gael gafael ar ffigurau RAJAR. Mae’n dweud bod hwn yn anhawster mawr pan fydd gorsafoedd radio cymunedol yn ceisio cynyddu eu refeniw. Mae hefyd yn nodi bod radio cymunedol yn cael ei lesteirio gan gyfyngiadau sy’n cael eu gosod ar eu gweithgarwch masnachol. Mae ei argymhellion penodol yn cynnwys y canlynol:

- Costau trawsyrru am ddim neu â chymhorthdal i orsafoedd radio cymunedol yng Nghymru ar FM a DAB.
- RAJAR i gynnig gwasanaeth am ddim neu wasanaeth cost isel i orsafoedd cymunedol ar gyfer mesur cynulleidfaoedd.
- Gwasanaeth newyddion sain am ddim, yn darparu clipiau a bwletinâu o sesiynau’r Senedd i bob radio a phodledwr annibynnol a chymunedol yng Nghymru a thu hwnt.
- Cynnig cymorth marchnata â chymhorthdal i orsafoedd radio cymunedol Cymru i helpu i godi ymwybyddiaeth o’u bodolaeth ymysg y gwrandawyr yn eu hardal.

68. Dywedodd Mr Webber hefyd

“digital technologies have caused the creation of an underground scene of content about Wales which is becoming increasingly attractive to Welsh people.”

69. Dywedodd Communicorp ei fod yn poeni am:

“... the distinction between community and commercial radio stations and the share of local advertising revenue that community radio stations can take out of a market which may put into question the sustainability and commercial viability if local commercial radio services.”

70. Disgrifiodd Colin Paterson o'r BBC y cydweithio rhwng y BBC a radio cymunedol yn ei dystiolaeth lafar:

“I could probably pick up on that. Yes, I think that we're very supportive of community radio. In the past, we've had formal memorandums of understanding and informal ones. Currently, there's no formal agreement, but in 2011 we did have one, and that was a mix of content sharing, both their ability to use our content, which we'd still be happy to look at, but also using the community radio stations and community reporters to feed into Radio Wales content. So, that's happened in the past.

Now we have informal relationships. So, I'm involved with Radio Cardiff in Butetown; there's an element of mentoring and training as part of that. Calon FM in Wrexham is based in the same building at the university. So, we're based in the same building as them. We support them in terms of training. Some of their volunteers are actually involved in some of our outputs. Janice Long's programme on Radio Wales comes from Wrexham in the evening. Some of the volunteers there help us with live bands and sessions, and elements like that.

So, there's no formal agreement at the moment. We're keen to work with community radio and support them; it's very much an open door. I think we're also cautious, though, that we don't want to force ourselves on them. They are independent organisations. Sometimes, as I say, we see a very mutually beneficial relationship with working with Radio Cardiff, for example, and Calon FM in Wrexham, but as editor of Radio Wales, I don't really want to go round the country forcing myself on

radio stations that don't want it, but very much an open door and willing to work with anybody who wants our support.”¹⁶

71. Nododd Euros Lewis o Radio Beca fod perthynas ei orsaf gyda'r BBC wedi gwella'n sylweddol ers ei sefydlu:

“Wel, i fod yn hollol onest, ar y pryd, mi oedd hi'n eithaf clir, o safbwynt y BBC, mai eiddo Radio Cymru oedd darlledu yn y Gymraeg ac nad oedd lle gydag unrhyw un arall, mewn gwirionedd, i figwth yr hegemoni hynny. Ac rwyf i'n pwysleisio hyn: o safbwynt y berthynas â Radio Cymru, mae hynny wedi newid yn llwyr, ac rydw i'n falch iawn o hynny. Hynny yw, rydw i'n rhagweld, a byddem yn gobeithio y byddwn ni, ar ryw adeg yn clywed pethau sy'n cael eu datblygu o dan adain a thrwy ysgogiad Radio Beca yn cael eu darlledu ar Radio Cymru.”¹⁷

72. Nododd tystiolaeth ysgrifenedig DCMS, yng ngoleuni presenoldeb gwannach radio cymunedol yng Nghymru o'i gymharu ag ardaloedd eraill y DU:

“Byddwn yn chwilio am ffyrdd y gall radio cymunedol ddatblygu ymhellach yng Nghymru, a bwriadwn gael trafodaeth gyda Llywodraeth Cymru ynghylch sut i symud hyn yn ei flaen.”

73. Mewn tystiolaeth lafar, dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym fod y Gronfa Radio Cymunedol wedi cyflawni ei nod o gryfhau'r sector radio cymunedol pan gafodd ei dwyn i ben:

“Roedd hon yn gronfa ar gyfer Cymru yn benodol, felly roedd yn unigryw, a buodd yn hwb sylweddol i'r sector. Cronfa pum mlynedd yr oedd i fod, a chafodd hi ei hymestyn am flwyddyn er mwyn rhoi cyfle i'r gorsafedd i baratoi ar ôl i'r gronfa ddod i ben. Felly, cronfa benodol oedd hi, am bum mlynedd. Ni ddaeth y gronfa i ben oherwydd ei bod wedi bod yn fethiant—i'r gwrthwyneb. Buodd yn llwyddiant ysgubol, ond, yn anffodus, roedd yn rhaid ystyried y gronfa gyda phethau eraill a oedd yn cael eu cyllido o fewn yr adran. Felly, dyna'r unig reswm y daeth i ben; nid oherwydd ei bod wedi bod yn fethiant, dim o gwbl. Buodd yn llwyddiant ysgubol a buodd yn hwb.”

74. Dywedodd y Gweinidog nad oedd o blaid cefnogi radio cymunedol gyda chyfathrebiadau wedi'u talu amdanynt gan y Llywodraeth, gan nodi:

¹⁶ Cofnod y Trafodion 22 Mawrth 2018

¹⁷ Cofnod y Trafodion 26 Ebrill 2018

“... nid ydw i'n meddwl y dylech chi noddi darlledu nac unrhyw gyfrwng arall trwy gyfrwng cyfathrebiadau Llywodraeth. Rydw i'n meddwl ei bod hi'n sefyllfa beryglus iawn ichi fod ynnddi hi. Os ydych chi'n dweud bod eisiau nawdd cyhoeddus i unrhyw ffurf o ddiwylliant neu gyfrwng o unrhyw fath, rydw i'n meddwl y dylid dadlau'r ddadl honno ar sail anghenion y farchnad neu annigonolrwydd y farchnad i fedru delio â sefyllfa, ac nid disgwyl i'r Llywodraeth groes-sybsideiddio unrhyw weithgaredd drwy hysbysebu.”

75. Fodd bynnag, o'i holi a fyddai talu am hysbysebion ar radio cymunedol i gefnogi ymgyrchoedd unigol y Llywodraeth yn briodol, dywedodd “Ydy, mae hynny'n wahanol”.

Ein barn ni

Gall Radio Cymunedol ddarparu radio hygyrch a chymharol rad, sy'n gallu helpu i uno cymunedau a meithrin mwy o gydlynid cymunedol yn yr ardaloedd maent yn eu gwasanaethu. Efallai y byddant yn o gryn werth wrth helpu i wella amrywiaeth darlledu Cymraeg hefyd, yn ogystal â darparu cyfleoedd gwirfoddoli a hyfforddi gwerthfawr.

Cyfyngiadau Ariannol a Chefnogaeth

Mae rhai tystion wedi dadlau dros gael gwared â chyfyngiadau ariannol cyfredol ar Radio Cymunedol fel bod gorsafoedd yn rhydd i ddod yn wasanaethau llwyr fasnachol os ydynt yn dewis. Mae eraill wedi cynghori y gallai hyn arwain atynt yn cael eu llyncu gan y sector masnachol.

Rydym yn cytuno y dylai Radio Cymunedol ddiwallu angen gwahanol i radio cwbl fasnachol. Mae'n gofyn am ddull gweithredu arno sy'n canolbwyntio ar gymunedau, yn enwedig cymunedau llai nad ydynt yn cael eu gwasanaethau cystal ag eraill. Ond, yn enwedig yn y cymunedau hynny sydd heb eu gwasanaethu cystal, mae Radio Cymunedol angen cymorth a chefnogaeth i'w alluogi i ffynnu.

Dylai Llywodraeth y DU ystyried sut mae ei gyfyngiadau ariannol cyfredol ar Radio Cymunedol yn gweithio'n ymarferol. Mae cyfyngiadau ariannol yn sicrhau bod Radio Cymunedol yn parhau i fod yn gymunedol ei natur ac nad yw'n ystumio'r farchnad fasnachol yn annheg. Serch hynny, efallai fod y cyfyngiadau presennol yn cyfyngu'n ddiangen ar ddatblygiad y sector.

Nodwyd y llwyddiant sylweddol yr honnwyd y cafodd cronfa Radio Cymunedol Llywodraeth Cymru, a ddaeth i ben yn 2013-14. Credwn fod yr amser wedi dod i ailasesu'r penderfyniad hwn ac i ailgyflwyno cyllid penodol yn y maes hwn. Efallai y bydd synergeddau rhwng Radio Cymunedol, radio ysbyty a darparwyr newyddion hyperleol a gallai unrhyw ffynhonnell ariannu helpu i fynd i'r afael â phob maes.

Hoffem hefyd i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ei gwerthusiad o lwyddiant y gronfa flaenorol, fel bod sail dystiolaeth i lywio polisi'r dyfodol a datblygiad cronfa newydd.

Mae Ofcom hefyd yn gweithredu Cronfa Radio Cymunedol y DU ar ran DCMS. Nid yw'n ymddangos bod yr arian hwn yn hysbys iawn yng Nghymru a dylai Ofcom ystyried a ellid hysbysebu argaeledd y gronfa yn well, yn enwedig yng Nghymru.

Hysbysebu

Fel y cynigir gan GTFM, dylai Llywodraeth Cymru hefyd ystyried Radio Cymunedol yn fwy gofalus fel cyfrwng ar gyfer hysbysebion y llywodraeth, yn enwedig mewn perthynas ag ymgyrchoedd gwybodaeth gyhoeddus sydd angen ffocws cymunedol. Mae'n ymddangos bod tystiolaeth nad yw Radio Cymunedol yn cael ei gynnwys yn aml hyd yn oed pan fyddai'n ffordd ymarferol a phriodol o roi cyhoeddusrwydd i ymgyrchoedd y llywodraeth. Dylai Llywodraeth Cymru ymdrechu i ddarlledu mwy o hysbysebion llywodraeth, yn enwedig ymgyrchoedd gwybodaeth gyhoeddus, ar orsafoedd Radio Cymunedol a rhoi canllawiau i gyrrff eraill y sector cyhoeddus yng Nghymru i dynnu eu sylw at y posibiladau o ddefnyddio mwy ar y sector hwn.

Mesur Llwyddiant - Symposiwm Cenedlaethol ar gyfer Radio Cymunedol

Rhan o'r rheswm nad yw radio Cymunedol yn cael ei ystyried ar gyfer ymgyrchoedd hysbysebu o bosibl yw nad yw'n glir o glir beth yw llwyddiant radio cymunedol. Absenoldeb ffigurau gwrando awdurdodol gan RAJAR sy'n gyfrifol am hyn i raddau helaeth. Yn ein barn ni, mae angen clir am wybodaeth well o lawer am ffigurau gwrando. Fodd bynnag, nid ydym yn glir ai defnyddio RAJAR yw'r cyfrwng cywir nac a allai ffigurau gwrando a gynhyrchir ar yr un sail ag ar gyfer radio masnachol roi argraff anwir o'r sector.

Rydym wedi clywed bod y sector yn gallu ei chael hi'n anodd dod o hyd i gyfleoedd i ddod at ei gilydd, cydweithio a mynd i'r afael â materion cyffredin. Yng ngoleuni hyn, bwriadwn gynnal symposiwm cenedlaethol ar gyfer Radio

Cymunedol yng Nghymru i geisio rhoi cyfle o'r fath. Ymhlith y materion y byddwn yn gofyn i'r gwahoddedigion fynd i'r afael â nhw yw'r ffordd orau o fesur llwyddiant Radio Cymunedol yng Nghymru, gan gynnwys nifer y gwrandawyr.

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi ei gwerthusiad o'r gronfa Radio Cymunedol ac, gan dynnu ar unrhyw wersi a ddysgwyd, ystyried cyflwyno cronfa newydd, gan ystyried unrhyw synergeddau rhwng Radio Cymunedol a darparwyr newyddion hyperleol eraill.

Argymhelliad 6. Dylai Ofcom wneud mwy i roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith fod y Gronfa Radio Cymunedol y mae'n gweithredu ar ran DCMS ar gael yng Nghymru.

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru ddarlledu mwy o hysbysebion y llywodraeth, yn enwedig ymgyrchoedd gwybodaeth gyhoeddus, ar orsafoedd Radio Cymunedol a rhoi canllawiau i gyrrff eraill y sector cyhoeddus yng Nghymru i dynnu eu sylw at y posibiladau o ddefnyddio mwy ar y sector.

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth y DU ystyried sut mae ei chyfyngiadau ariannol cyfredol ar Radio Cymunedol yn gweithio'n ymarferol ac a yw rhai o'r cyfyngiadau presennol yn cyfyngu diangen ar ddatblygiad y sector yng Nghymru.








Argymhelliad 9. Dylai'r sector Radio Cymunedol yng Nghymru ystyried y ffordd orau o fesur llwyddiant, gan gynnwys nifer y gwrandawyr a ffigurau RAJAR. Er mwyn hwyluso hyn, mae'r Pwyllgor yn bwriadu trefnu symposiwm ar gyfer gorsafoedd Radio Cymunedol yng Nghymru i roi cyfle iddynt ddod at ei gilydd ac ystyried ystod o faterion cyffredin, gan gynnwys defnyddio gwasanaethau ffigurau RAJAR.

4. Radio'r BBC yng Nghymru:

Cefndir

76. Gwasanaethau radio'r BBC i Gymru ac nid i'r rhwydwaith ledled Prydain yw Radio Cymru (gorsaf radio Gymraeg genedlaethol Cymru), Radio Wales (darlledwr cenedlaethol Cymru yn Saesneg) a Radio Cymru 2 (ail orsaf radio Gymraeg sydd ar gael yn ddigidol-yn-unig, sy'n darlledu yn y bore).

Data perfformiad 2016-17

Performance by service						
Dedicated services		Content We spent a total of £27.8 million on these services in 2016/17	Reach Wales population who use the service each week	Time spent watching or listening to a service each week Length of time the average listener spent each week with the service	Appreciation Index by service Aggregate of how people rated individual programmes, expressed as a number out of 100	Costs per user hour How much it costs to deliver each service to individual users
		£M	%	H:M		P
	BBC Radio Wales is a speech-led service for adults, which offers a wide range of genres and reflects the issues, events, culture and interests of the people of Wales.	£14.2m 2015/16: £15.1m	13.9% 2015/16: 14.8%	08:19 2015/16: 08:15	82.7 2015/16: 82.5	9.1p 2015/16: 9.0p
	BBC Radio Cymru is a speech and music radio service for Welsh speakers, which offers a wide range of genres and reflects the issues, events, culture and interests of the people of Wales.	£13.6m 2015/16: £14.2m	4.2%* 2015/16: 4.3%	10:42 2015/16: 10:47	78.8 2015/16: 77.0	22.6p 2015/16: 22.3p

Reach definition: 15+ minutes for all services and on audiences aged 15+
Sources: reach and time spent RAJAR; Appreciation Index: Pulse panel of 20,000 UK adults, 16+ by G9; Data based on Total Survey Area (TSA)
* BBC Radio Cymru reaches 16.7% of the 15+ Welsh-speaking population in a week who use the service for 12.23 a week on average. Welsh-speaking listeners give it an average Appreciation Index score of 78.8. RAJAR data (reach and time per listener) based on 'Understand Welsh'; Appreciation Index data based on 'Speak Welsh Fluently & Speak Welsh but not Fluently'

Ffynhonnell: Adroddiad Blynyddol y BBC 2016-17¹⁸

77. Ar gyfartaledd, mae 372,000 o bobl yn gwrandao ar BBC Radio Wales bob wythnos (cyfartaledd RAJAR ar gyfer 2017). Mae cyfran Radio Wales o'r holl wrandawyr radio yng Nghymru oddeutu 5% a dyma'r bumed orsaf fwyaf poblogaidd yng Nghymru ar ôl BBC Radio 1, BBC Radio 2, BBC Radio 4 a Heart South Wales. Ar gyfartaledd, bydd gwrandawyr Radio Wales yn gwrandao am ryw 8 awr yr wythnos.

78. Mae BBC Radio Cymru yn cyrraedd 127,000 o oedolion yng Nghymru - gyda'r gwrandawr cyffredin yn treulio dros 11 awr yr wythnos gyda'r orsaf. Radio Cymru yw'r orsaf fwyaf poblogaidd ymysg siaradwyr Cymraeg rhugl, gan gyfrif am 20% o'u holl wrando ar y radio yn 2017. Mae Radio Cymru yn gyfrifol am fwy na 60% o'r holl oriau Cymraeg ar y cyfryngau a fwynheir gan gynulleidfa oedol.

¹⁸

http://downloads.bbc.co.uk/aboutthebbc/insidethebbc/reports/pdf/bbc_annualreport_201718_cy.pd

- 79.** Cyfanswm y gwariant ar y ddau wasanaeth hyn yn 2016-17 oedd £27.8 miliwn, i lawr o £29.3 miliwn yn 2015-16. Gostyngodd cyrhaeddiad y ddau wasanaeth radio ryw fymryn rhwng y ddwy flynedd.
- 80.** Ers 2013-14, mae cost Radio Wales fesul awr defnyddiwr wedi codi 40%, i 9.1c. Yn achos Radio Cymru, cododd 48% i 22.6c. O ran cymhariaeth, cost BBC Radio Scotland fesul awr defnyddiwr yw 6.0c, a chost BBC Radio nan Gaidheal (gwasanaeth Gaeleg yr Alban) fesul awr defnyddiwr yw 15.6c.
- 81.** Ym mis Ionawr 2018 lansiodd y BBC ail amserlen Radio Cymru ar amserau brig - BBC Radio Cymru 2 - a hynny er mwyn cynnig dewis i siaradwyr Cymraeg ar DAB ac iPlayer Radio y BBC. Tra y bydd BBC Radio Cymru yn parhau i gynnig gwasanaeth newyddion llawn yn y bore, bydd Radio Cymru 2 yn cynnig cymysgedd o gerddoriaeth ac adloniant. Daw'r newyddion yn dilyn arbrawf i gynnig dewis arall i wrandawyr Radio Cymru y llynedd - Radio Cymru Mwy.
- 82.** Yn eu hasesiad o berfformiad y BBC yng Nghymru yn 2016 mewn perthynas â radio, dywedodd Cyngor Cynulleidfa'r BBC:¹⁹

“Despite some reduction in audience reach of Radio Cymru and Radio Wales in Wales, the Council considers the performance of both stations to have been largely stable and in-line with the overall reduction in all BBC Radio listening. Having met the Editors of both stations regularly, the Council is supportive of their actions.

The Council congratulates Radio Cymru on the 40th anniversary of its establishment (with Radio Wales due to celebrate the same anniversary at the end of 2018). It believes that generations of Welsh speakers have been informed, educated and entertained by the station. Council members look forward to hearing about the outcome of the RC Mwy pilot which saw alternative Radio Cymru output offered each morning for a month both on-line and in south-east Wales on DAB. This gave the BBC an opportunity to test the technology as well as providing a platform for new presenting talent.

The Council has heard audience concerns about the extensive schedule changes on Radio Wales in recent years as more speech content has been included in daytime. There is an audience perception that the station was no longer reflecting their communities and connecting

¹⁹ www.bbc.co.uk/bbctrust/who_we_are/audience_councils/wales/annual_review_2017

with them in the way it once did and the Council considers that reconnecting with those communities to be a priority for the station.”

83. Yn adroddiad y Pwyllgor ar ddarlledu (Y Darlun Mawr²⁰), argymhellwyd trefniant eithrio ar Radio 2 a Radio 1 i ddarlledu newyddion o Gymru. Yn 2016 trafododd Cyfarwyddwr BBC Cymru Wales Rhodri Talfan Davies gyda'r Pwyllgor y posibilrwydd o drefniant eithrio ar newyddion Radio 2 i ganiatáu bwletin newyddion Cymreig. Roedd yn amcangyfrif y byddai'r cynnig hwn yn costio £0.5 miliwn mewn costau dosbarthu, ynghyd â chost olygyddol darparu'r bwletin newyddion newydd. Roedd Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC, yr Arglwydd Hall, wedi dweud wrth y Pwyllgor o'r blaen fod trefniant eithrio yng Nghymru ar gyfer newyddion Radio 1 a Radio 2 yn sicr ar yr agenda ar gyfer yr adolygiad newyddion.

84. Yn ddiweddar, dywedodd Rhys Evans o'r BBC wrth y Pwyllgor er bod y cysyniad hwn yn un dilys, nid oedd yn bosibl ar hyn o bryd am resymau technegol. Eglurodd fod y signal sy'n targedu Cymru, wrth ddarlledu ar FM, hefyd yn darlledu i dde-orllewin Lloegr, sy'n golygu y byddai'r cynulleidfa oedd hynny'n cael newyddion Cymru hefyd. Ac ar ddigidol, eglurodd nad oes modd cael trefniant eithrio gan fod gennym rwydwaith un amledd ledled y DU ar amblecs BBC Radio 1 a Radio 2.

85. Ar hyn o bryd mae'r BBC yn datblygu nifer o gynlluniau i wella'r sylw i ddemocratiaeth leol. Hanfod y rhain yw ariannu 150 o newyddiadurwyr a fydd yn cael eu cyflogi gan sefydliadau newyddion lleol cymwys i roi sylw i weithgarwch democrataidd lleol i ddarparwyr newyddion lleol gan gynnwys y BBC.

Tystiolaeth

86. Dywedodd tystiolaeth y BBC fod gwasanaethau radio y BBC yn denu mwy o wrandawyr yng Nghymru nag unrhyw genedl arall yn y DU. Mae'n nodi:

“Gellir priodoli'r perfformiad cryf hwn i raddau helaeth i apêl gwasanaethau rhwydwaith fel Radio 1, Radio 2 a Radio 4 – a gwendid cymharol radio masnachol. Yn benodol, mae twf cynulleidfa Radio 2 yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn nodedig.”

87. Mae'r BBC yn nodi bod Radio Wales wedi cyflwyno “The Welsh A-list” yn 2017, sy'n cyfrif am 40% o restr chwarae'r orsaf o gerddoriaeth newydd bob pythefnos.

²⁰ Y Darlun Mawr 2017

88. Mewn tystiolaeth lafar, amlinellodd Rhys Evans y BBC sut y gallai prosiect democratiaeth leol y BBC fod o gymorth i orsafoedd radio cymunedol:

“So, to go back to your hypothetical meeting with the community radio stations, I make this offer here now: if they are interested, that content is there, assuming they meet the eligibility criteria, and I can’t see any reason why not. That content, including news copy and also clips, is there available to them. So, that would, I suggest, be very helpful in helping them better reflect the communities that they serve.”²¹

89. Mae Marc Webber yn galw ar y BBC i wneud mwy i wella perthnasedd gwasanaethau’r Deyrnas Unedig i bobl yng Nghymru. Mae ei argymhellion penodol yn cynnwys:

- BBC Radio 2 i redeg bwletinaw newyddion a gynhyrchir yng Nghymru ar yr awr yn ystod rhaglenni brechwast a hwyr y prynhawn yn ystod yr wythnos ar gyfer amleddau Cymru.
- BBC Radio 1 i aildechrau’r Evening Session from Wales bob nos lau i’w darlledu yng Nghymru yn unig neu ledled y Deyrnas Unedig.

90. Mewn tystiolaeth lafar, cwestiynodd farn y BBC nad oedd trefniant eithrio newyddion Cymru’n unig yn bosibl yn dechnegol:

“What I found very interesting about the BBC’s submission was that one minute they were telling you, ‘You absolutely can’t do this; we’d affect 2 million people in Somerset’ and then suddenly they find 200,000 listeners from Somerset down the back of a sofa and say, ‘Oh no, if we put this transmitter over here and put that transmitter—.’ I think if you keep on asking the question you’ll get that number down to zero. I think anything is possible technically. I think both are possibly technical, with investment, I grant you that.”

91. Yn ôl Communicorp, fel gwasanaeth cyhoeddus dylai gwasanaethau radio’r BBC fod yn wahanol o’u cymharu â gwasanaethau masnachol.

92. Dywed papur y Gweinidog, o ran gwasanaethau radio y BBC yng Nghymru, “rydym yn bryderus ynghylch y ffaith bod ystod y rhaglenni nad ydynt yn rhaglenni newyddion yn culhau yn gyffredinol”. O ran cynnwys y rhwydwaith, dywed papur y Gweinidog:

²¹ Cofnod y Trafodion 22 Mawrth 2018

“Ymddengys mai ychydig iawn o’r rhaglenni a gomisiynir gan y BBC ar gyfer radio rhwydwaith y DU sy’n dod o Gymru. Hoffem weld mwy o raglenni’n cael eu comisiynu oddi wrth BBC Cymru Wales; dylai’r BBC osod targedau mwy ymestynnol yn hyn o beth.”

93. Yn y gorffennol mae’r Pwyllgor wedi galw ar Ofcom i gyflwyno gofynion cynhyrchu rhwydwaith ar gyfer radio’r BBC yng Nghymru (gweler pennod yr adroddiad hwn ar sut mae Ofcom yn rheoleiddio’r BBC).

Ein barn ni

Mae’r BBC yn hanfodol i allbwn radio yng Nghymru. Nid yn unig y mae’n darparu pedair o’r pum gorsaf fwyaf poblogaidd yng Nghymru, mae gan ei allbwn newyddion ar Radio Wales ac ar Radio Cymru y safonau newyddiadurool uchaf ac mae’n rhan ganolog o sut mae pobl yng Nghymru yn cael eu hysbysu am Gymru a bywyd yng Nghymru. Mae siaradwyr Cymraeg rhugl yn gwranddo mwy ar Radio Cymru nag unrhyw orsaf arall ac mae creu Radio Cymru 2 yn gam pwysig i ehangu cyrhaeddiad radio Cymraeg ymhellach. Rydym yn llongyfarch BBC Cymru Wales ar ei lwyddiant gyda Radio Wales a Radio Cymru a gobeithio y byddant yn parhau i ffynnu.

Mae gorsafoedd eraill y BBC, mewn sawl ffordd, hyd yn oed yn fwy llwyddiannus yng Nghymru. Gyda Radio 1, Radio 2 a Radio 4 mae’r BBC yn darparu’r tair gorsaf radio fwyaf poblogaidd yng Nghymru. Fodd bynnag, mae’r poblogrwydd hwn yn cyflwyno ei heriau ei hun.

Fel y nodwyd gennym yn ein hadroddiad “Y Darlun Mawr” y llynedd, Radio 2 yw’r orsaf radio y gwrandewir arni fwyaf yng Nghymru ac eto nid yw’n darparu bron ddim cynnwys newyddion penodol i Gymru. Gellir dweud yr un fath am Radio 1 a Radio 4. Nid yw allbwn newyddion y gorsafoedd hyn yn gwneud braidd dim i hyrwyddo’r agendâu newyddion gwahanol iawn yng Nghymru neu mewn rhannau eraill o’r DU ac mae’n gwneud llawer i greu ac atgyfnerthu dryswch ynghylch cyfrifoldeb am benderfyniadau gwleidyddol o fewn gwahanol wledydd y DU.

Am y rhesymau hyn, gwnaethom alw am drefniadau eithrio ar newyddion Radio 1 a 2 i ddarlledu bwletinâu o Gymru. Fodd bynnag, er gwaethaf cael ei ystyried fel rhan o adolygiad newyddion y BBC, dywedwyd wrthym nad yw hyn yn bosibl ar hyn o bryd am resymau technegol. Mae hyn yn hynod o siomedig. Dylai’r BBC fynd ati i ganfod atebion technegol posibl a blaenoriaethu buddsoddiad i helpu i oresgyn y problemau technegol cyfredol.

Rydym hefyd yn nodi barn y Gweinidog ei bod yn ymddangos mai ychydig iawn o gomisiynu'r BBC ar gyfer radio rhwydwaith y DU sy'n dod o Gymru. Rydyn ni'n rhannu ei farn y dylai'r BBC osod targedau mwy heriol i'w hun ar gyfer y cynnwys hwn. Rydym hefyd o'r farn bod angen i newyddion radio BBC Cymru Wales fod yn fwy pendant wrth hyrwyddo straeon newyddion o Gymru sy'n cynnig cipolwg ar ddatblygiadau polisi mewn rhannau eraill o'r DU.

Argymhelliad 10. Dylai'r BBC fynd ar drywydd rhagor o opsiynau sydd ar gael iddo er mwyn darparu trefniant eithrio ar wasanaethau radio rhwydwaith i ddarlledu newyddion o Gymru a dylai flaenoriaethu buddsoddiad i helpu i oresgyn y problemau technegol sy'n atal hyn ar hyn o bryd.

Argymhelliad 11. Dylai'r BBC osod targedau mwy heriol i'w hun ar gyfer cynnwys radio rhwydwaith y DU o Gymru. Dylai BBC Cymru Wales fod yn fwy pendant wrth hyrwyddo straeon newyddion o Gymru a cherddoriaeth o Gymru ar gyfer rhwydweithiau'r DU.

5. Rôl newydd Ofcom fel rheoleiddiwr allanol y BBC

94. Daeth Siarter presennol y BBC (sail gyfansoddiadol y BBC, sy'n nodi'n fras sut y dylai'r BBC gael ei threfnu a beth y dylai ei wneud) i rym ym mis Ionawr 2017, a bydd ar waith tan fis Rhagfyr 2027. Mae'r Siarter yn cynnwys rôl newydd i Ofcom fel rheoleiddiwr allanol cyntaf y BBC.

95. O dan y Siarter diwethaf, Ymddiriedolaeth y BBC oedd yn gyfrifol am oruchwylio perfformiad y BBC, a hynny ar sail system o drwyddedau gwasanaeth unigol oedd yn rhagnodi "cyfran cyfrifoldeb" pob gwasanaeth o ran cyflawni'r dibenion cyhoeddus. Y dibenion cyhoeddus yw'r datganiadau cenhadaeth eang ar gyfer yr hyn y dylai'r BBC ei wneud.

96. Mae swyddogaeth newydd Ofcom yn cynnwys sicrhau bod cynulleidfaoedd yng ngwledydd unigol y DU yn cael eu gwasanaethu'n dda. Rhaid i Ofcom sicrhau y darperir rhaglenni a gwasanaethau mwy unigryw ar y BBC. Yn ogystal â chadw golwg ar gynnwys, mae Ofcom yn gyfrifol am sicrhau bod cyfran briodol o raglenni rhwydwaith yn cael eu gwneud y tu allan i Lundain, gan gynnwys ym mhob un o wledydd y DU.

97. Rhaid i Ofcom adrodd yn flynyddol ar y graddau y mae'r BBC yn cyflawni ei fesurau perfformiad, a gall orfodi sanctsiynau- gan gynnwys cosbau ariannol - os nad yw'r BBC yn bodloni ei amodau rheoleiddio newydd.

Beth mae Ofcom wedi'i wneud?

98. Mae Ofcom wedi datblygu un drwydded weithredu unigol ar gyfer y BBC sy'n cynnwys, yn ei eiriau ei hun, "amodau rheoleiddio clir, mesuradwy a digon heriol mewn perthynas â gwasanaethau'r BBC".

99. Y llynedd cynhaliodd y Pwyllgor hwn gyfarfodydd gyda Phwyllgor Ymgynghorol Ofcom ac Ofcom i edrych ar gynigion Ofcom ynghylch sut i reoleiddio'r BBC. Ysgrifennodd at Ofcom wedyn, gan wneud y pwyntiau allweddol canlynol mewn perthynas â radio:

- Mewn perthynas â BBC Radio Wales, roedd Ofcom wedi cynnig bod rhaid i'r BBC sicrhau bod yr amser a ddyrennir i newyddion a materion cyfoes heb fod yn llai na 32 awr bob wythnos. Mae hyn yr un fath â'r amod trwydded cyfatebol cyfredol. Yn 2015-16 y ffigur allbwn oedd 53 awr.

- Dywedodd Pwyllgor Ymgynghorol Ofcom i Gymru wrth y Pwyllgor fod yr adran ar radio yn ddiangen o lywaeth. Mae'n nodi bod Radio Scotland, y mae Ofcom yn cynnig y dylai gael gofyniad cyfatebol o 50 awr, yn wasanaeth cyfatebol i Radio Wales. Mae'n galw am gydraddoldeb rhwng y ddau wasanaeth hyn ar y pwynt hwn.
- Galwodd y Pwyllgor Ymgynghorol am gyflwyno cwotâu o 5% ar gyfer cynrychiadau radio yn y DU a wnaed yng Nghymru (sy'n cyfateb i'r amod rheoleiddio sy'n ymwneud â chynhyrchu teledu rhwydwaith).

100. Cymeradwyodd y Pwyllgor y cynigion hyn.

101. Yn dilyn yr ymgynghoriad, ni newidiwyd y drwydded Weithredu i gynyddu'r amser a neilltuir ar gyfer newyddion a materion cyfoes ar BBC Radio Wales (a oedd yn parhau yn 32 awr yr wythnos) neu gyflwyno cwota penodol ar gyfer cynhyrchu radio rhwydwaith yng Nghymru.

102. Yn ddiweddar, mae Ofcom wedi ymgynghori ar sut y bydd yn mesur cynrychiolaeth a phortread ar wasanaethau'r BBC,²² er ei fod wedi datgan y bydd yr adolygiad hwn yn edrych ar deledu'n bennaf. Mae'r Pwyllgor wedi ysgrifennu at Ofcom i ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Ymhlith y prif bwyntiau yn ymateb y Pwyllgor oedd:

- Rhaid cynnwys Cymru fel un o'r "grwpiau gwahanol" y mae Ofcom yn bwriadu casglu data ansoddol a meintiol ynglŷn â sut maent yn cael eu cynrychioli a'u portreadu ar y BBC.
- Dylai Ofcom neu'r BBC gasglu a chyhoeddi'r data llawn - nid dim ond enwau rhaglenni teledu a radio - a ddefnyddir gan y BBC i fesur portread. Mae'r Pwyllgor eisoes wedi gofyn am y wybodaeth hon gan y BBC, ac nid yw wedi ei derbyn.

Tystiolaeth

103. Mae papur y Gweinidog yn nodi fel a ganlyn:

"Fe wnaeth Llywodraeth Cymru ddarparu ymateb manwl ym mis Gorffennaf 2017 i ymgynghoriad Ofcom ar ei Drwydded Weithredu gyntaf ar gyfer y BBC. Yn ein hymateb i'r ymgynghoriad, gwnaethom godi nifer o bryderon am y Drwydded ddrafft, gan annog Ofcom i fynd

²² www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-3/bbc-thematic-review-representation-portrayal

i'r afael â nhw er mwyn creu Trwydded derfynol a fyddai'n addas i'r diben. Roedd yn siom na chafodd y Drwydded ei diwygio i adlewyrchu nifer o welliannau pwysig a awgrymwyd ac a esboniwyd yn fanwl gan Lywodraeth Cymru yn ei hymateb i'r ymgynghoriad."

Ein barn ni

Mae'r Pwyllgor wedi mynegi ei bryder o'r blaen am y diffyg her i'r BBC yn nhrwydded newydd Ofcom. Rydym hefyd o'r farn nad yw'r gofynion ar gyfer Radio yn ddigon heriol. Rydym yn ailadrodd y pwyntiau i ni eu gwneud yn ein gohebiaeth gynharach gydag Ofcom lle'r oeddem yn cytuno â Phwyllgor Ymgynghorol Ofcom i Gymru a oedd yn galw am:

- Cydraddoldeb â Radio Scotland, y mae Ofcom yn cynnig y dylai gael gofyniad cyfatebol i ddarlledu o leiaf 50 awr yr wythnos o allbwn newyddion a materion cyfoes (y cynnig presennol ar gyfer Cymru yw 32 awr): a
- Chyflwyno cwotâu o 5% ar gyfer cynyrchiadau radio'r DU a wnaed yng Nghymru (sy'n cyfateb i'r amod rheoleiddio yn ymwneud â chynhyrchu teledu rhwydwaith).

Yn sgil y diffyg her yn y gofynion, credwn hefyd y dylai'r BBC eu gweld fel llawr yn hytrach na nenfwd a cheisio cynyddu'r ddau darged.

Mae rôl newydd Ofcom hefyd yn cynnwys sicrhau bod cynulleidfaoedd yng ngwledydd unigol y DU yn cael eu "gwasanaethu'n dda" a rhaid iddynt "sicrhau mwy o wasanaethau ac allbwn unigryw" ar y BBC. Yn ogystal â goruchwyllo cynnwys, mae Ofcom yn gyfrifol bellach am sicrhau bod cyfran briodol o raglenni rhwydwaith yn cael eu gwneud y tu allan i Lundain, gan gynnwys ym mhob un o wledydd y DU.

Yn ein barn ni, dylai Ofcom ddefnyddio ei ddyletswyddau newydd i sicrhau bod mwy o gerddoriaeth gan artistiaid o Gymru yn cael ei chwarae ar y radio yng Nghymru.

Argymhelliad 12. Yng ngoleuni'r diffyg her i'r BBC yn nhrwydded weithredu newydd Ofcom, dylai'r BBC drin yr amodau rheoleiddio hyn fel llawr yn hytrach na nenfwd, a cheisio cynyddu:


- nifer y rhaglenni newyddion a materion cyfoes ar Radio Wales a Radio Cymru; a

- nifer y cynyrchiadau radio rhwydwaith a wneir yng Nghymru.

Argymhelliad 13. Dylai Ofcom ddefnyddio ei ddyletswyddau newydd o sicrhau bod cynulleidfaoedd yng Nghymru yn cael eu “gwasanaethu’n dda” gyda “... mwy o wasanaethau ac allbwn unigryw” i sicrhau bod mwy o gerddoriaeth gan artistiaid o Gymru yn cael ei chwarae ar y radio yng Nghymru.

6. Seilwaith

Darpariaeth DAB mewn Cartrefi



Source: BBC, Arqiva, Ofcom, May 2017. *Figures for local DAB are projections of expected coverage for mid-2017 based upon a planned list of transmitter sites. The plan is continuing to be refined and actual coverage may differ slightly from those figures when the current programme of expansion completes during 2017

Ffynhonnell: Ofcom 2017 Communications Market Report, Radio and audio content²³

104. Mae DCMS Llywodraeth y DU wedi dweud y byddai penderfyniad ynghylch a ddylid gosod dyddiad ar gyfer newid drosodd i ddigidol yn cael ei ystyried pan fodlonir y meini prawf canlynol:

- pan fo 50% o'r holl wrando ar y radio yn digwydd drwy lwyfannau digidol; a
- phan fo cyrhaeddiad DAB ledled y wlad yn debyg i gyrhaeddiad FM, a bod DAB lleol yn cyrraedd 90% o'r boblogaeth a'r prif ffyrdd i gyd.

105. Mae tystiolaeth y BBC yn dweud ei bod yn disgwyl i wrando'n ddigidol gyrraedd 50% yn ystod chwarter cyntaf 2018, gan sbarduno adolygiad gan y DCMS.

Tystiolaeth

106. Mae tystiolaeth y BBC yn nodi, pe bai DCMS yn penderfynu dechrau'r broses newid i ddigidol:

“Mae'r BBC wedi ymrwmo i sicrhau bod yr un gyfran yn y bôn o aelwydydd yn y DU sy'n derbyn gwasanaethau radio'r BBC mewn ffurf

²³ www.ofcom.org.uk/___data/assets/pdf_file/0012/105006/wales-radio-audio.pdf

analog (MW/FM) yn gallu derbyn y gwasanaethau hynny'n ddigidol, yn amodol ar asesiad gwerth am arian llawn gan y BBC.”

107. Ym Mehefin 2017 cyhoeddodd BBC Cymru Wales welliannau arfaethedig i'w gwasanaethau i Gymru. Mae'r BBC yn bwriadu ymestyn argaeledd Radio Wales ar y band FM i oddeutu 330,000 o bobl, gan gynyddu ei gwmpas FM ledled Cymru o 79% i 91%. Mae'r BBC yn dweud y bydd y newid hwn o fudd i wrandawyr yn y gogledd-ddwyrain a'r canolbarth yn arbennig.

108. Mae'r BBC yn nodi iddi gwblhau'r gwaith o ehangu rhwydwaith DAB Cenedlaethol y BBC yn 2017. Roedd hyn yn golygu cynyddu “darpariaeth gwasanaethau rhwydwaith y BBC yng Nghymru i 92% o aelwydydd a 72% o brif ffyrdd”.

109. Mae Nation yn dweud bod Cymru gryn dipyn ar ei hôl hi o gymharu â'r DU yn ei chyfanrwydd mewn perthynas â throï at wrando ar DAB ac y dylai unrhyw gynllun ar gyfer newid i ddigidol ystyried hyn.

110. Mae Marc Webber yn nodi cost frawychus trawsyrru ar FM ac, er bod rhaid i'r dirwedd fynyddig ysgwyddo rhywfaint o'r bai, mae'n dweud mai monopoli i bob pwrpas mewn cwmnïau trawsyrru yng Nghymru yw'r gwir reswm am hyn. Mae'n awgrymu bod gorsaf Radio Beca i ddychwelyd ei thrwydded radio cymunedol yn enghraifft o'r broblem hon. Dywedodd fod gan Arqiva:

“a monopoly on the delivery of FM and DAB signals in Wales [which is] worth investigation.”

111. Mae ei argymhellion penodol yn cynnwys:

- Costau trawsyrru am ddim neu â chymhorthdal i orsafoedd radio cymunedol yng Nghymru ar FM a DAB.
- Sianel gerddoriaeth boblogaidd Gymraeg ledled Cymru ar FM a DAB heb gostau trawsyrru am y tair blynedd gyntaf, neu bartneriaeth rhannu rhaglenni rhwng gwneuthurwyr y rhaglenni Cymraeg presennol.

112. Mae Communicorp yn dweud y byddai'n:

“like to see a more coordinated Government led transmission architecture for all broadcasters in Wales.”

113. Disgrifiodd DCMS raglen i wella darpariaeth DAB lleol, a dderbyniodd £7.3 miliwn o gyllid cyfalaf yng Nghymru, a gwblhawyd ym mis Mawrth 2018. Mae'n nodi:

“O ran y rhaglen hon, mae Cymru yn cyfateb â 4.7% o boblogaeth y Deyrnas Unedig ac mae wedi cael cyfran uwch - 7.7% - o gyfanswm cyllid cyfalaf DCMS a neilltuwyd i gynorthwyo gweithgarwch i ehangu'r rhwydwaith DAB lleol.

Fel rhan o adolygiad am ddyfodol radio digidol, byddwn yn ceisio mewnbwn gan randdeiliaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru.”

114. Mae tystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidog yn nodi:

“The Welsh Government continues to be concerned that even when the proposed criteria for radio switchover are met on a UK basis, there would almost certainly be a significantly lower level of DAB penetration in Wales.”

115. Wrth fynd i'r afael â'r broblem fod perchnogaeth cwmnïau trawsyrru wedi'i chanoli mewn nifer fach o ddwylo yng Nghymru, dywedodd y Gweinidog:

“I very much regret that this matter was not addressed properly earlier on, as this monopolistic, or duopolistic, situation was developing.”

Ein barn ni

Nodwn ar sail y DU y bydd y meini prawf ar gyfer adolygu p'un a ddylid bwrw ati i newid i ddigidol yn debygol o gael eu cyflawni'n fuan, os nad yw hynny wedi digwydd eisoes. Er gwaethaf hyn, mae Cymru gryn bellter ar ei hôl hi o gymharu â rhai rhannau eraill o'r DU. Byddem yn pryderu pe bai newid i ddigidol yn cael ei ystyried tra bod y ddarpariaeth yng Nghymru ddim cystal ag ydyw mewn ardaloedd eraill, yn enwedig o gofio bod mwy o bobl yng Nghymru yn tueddu i wrando ar y radio, a hynny am fwy o amser, nag ydynt mewn rhannau eraill o'r DU. Mae angen ystyried gallu amblecsau digidol i ddelio â materion megis trefniadau eithrio er mwyn darlledu newyddion Cymru wrth benderfynu pryd i symud ymlaen.

Yn y tymor byr, a heb fynd i'r afael â'r materion hyn, byddem yn bryderus iawn pe bai'r newid i ddigidol yn mynd rhagddo.

Mae nifer o dystion wedi sôn am gost darlledu ar amledd FM a DAB ac maent wedi priodoli hyn i'r “monopoli i bob pwrpas” sydd gan Arqiva wrth ddarparu'r signalau hyn. Nid ydym wedi cymryd tystiolaeth mewn unrhyw fanylder ar y pwynt hwn ond mae'r diffyg cystadleuaeth yn ôl pob golwg yn destun pryder.

Argymhelliad 14. Ni ddylai DCMS wneud unrhyw benderfyniad ar y newid i ddigidol nes bod y diffyg cymharol o ddarpariaeth ddigidol yng Nghymru wedi'i wella.

Argymhelliad 15. Dylai Ofcom adolygu pryderon ynghylch cystadleuaeth sy'n deillio o'r ffaith fod gan Arqiva fonopoli i bob pwrpas dros drawsyrro yng Nghymru.

7. Datganoli darlledu

116. Y cefndir i'r ymchwiliad hwn yw bod pwerau dros reoleiddio radio, ynghyd â gweddill darlledu, wedi'u cadw'n ôl ar gyfer senedd y DU. Mae gweithgarwch uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru wedi'i gyfyngu i ymyriadau megis y Gronfa Radio Cymunedol flaenorol, yn ogystal â rhywfaint o ymwneud ffurfiol â materion a gadwyd yn ôl: megis penodi aelodau i fyrddau Ofcom a'r BBC. Cododd y cwestiwn ynghylch a ddylid datganoli cyfrifoldeb dros radio – a darlledu yn fwy cyffredinol – sawl gwaith yn ystod yr ymchwiliad hwn.

117. Dadleuodd Steve Johnson o blaid datganoli cyfrifoldeb dros radio i Gymru yn y termau canlynol:

“I just generally feel that nobody's going to do Wales any favours, and why would they be helping us to tell our story? So, therefore, we should put ourselves in the strongest position to tell our story for ourselves.”

118. Dywedodd Marc Webber, wrth drafod yr hyn roedd e'n ei weld fel methiant y farchnad radio masnachol yng Nghymru

“if Wales had the ability to manipulate the current laws, I think that would be good enough.”

119. Yn ei dystiolaeth lafar, dywedodd y Gweinidog:

“Nid yw'n bolisi Llywodraeth Cymru i ddatganoli darlledu oherwydd ein bod ni'n credu bod yr economi ddarlledu yn bwysig iawn i ni yng Nghymru, a'n bod ni eisiau gweld cryfhau yr economi ddarlledu yng Nghymru.”

Ein barn ni

Mae'r Ymchwiliad hwn wedi codi'r mater a ddylai darlledu, neu agweddau arno, gael ei ddatganoli i'r Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru. Mae hwn yn fater y byddwn yn siŵr o ddychwelyd ato rywbryd eto. Am nawr, er bod gwahaniaeth barn ymysg Aelodau'r Pwyllgor ar y mater, rydym yn cydnabod nad yw'n bolisi gan Lywodraeth y DU na Llywodraeth Cymru ddatganoli darlledu i Gymru.

Fodd bynnag, mae'r rheswm a roddwyd gan y Gweinidog dros bolisi Llywodraeth Cymru yn destun pryder. Mae'n awgrymu diffyg ffydd yn gyffredinol mewn datganoli fel ffordd o wella a datblygu polisiâu sydd wedi'u teilwra i

anghenion Cymru. O bosib, mae ei bryderon yn ymwneud yn syml â gallu Llywodraeth Cymru i ymdrin â'r mater hwn ar hyn o bryd.

Fodd bynnag, mae'n annhebygol y bydd y ddadl ynghylch y mater hwn yn distewi am hir ac felly byddai'n ddefnyddiol pe gallai Llywodraeth Cymru nodi'n glir ei strategaeth ar gyfer sicrhau bod Radio yng Nghymru yn cyflawni'r amcanion y mae Llywodraeth Cymru wedi'u hamlinellu mewn tystiolaeth arall i'r Pwyllgor.

Argymhelliad 16. Dylai Llywodraeth Cymru nodi'n glir ei strategaeth ar gyfer sicrhau bod Radio yng Nghymru yn cyflawni amcanion polisi Llywodraeth Cymru ei hun.

Radio Ysbyty/Myfyrwyr

Ar gais y Cadeirydd, mae'r tîm Clercio wedi gofyn hefyd i gynrychiolwyr gorsafoedd radio ysbyty a myfyrwyr a oes ganddynt unrhyw beth y maen nhw'n dymuno'i gyfrannu at yr ymchwiliad. Yr unig ymateb a dderbyniwyd oedd gan Gadeirydd Radio BGM, Radio Ysbyty Tywysog Philip, Llanelli fel y'i nodir isod.

A yw'r Pwyllgor yn dymuno dweud unrhyw beth yn benodol am Radio Ysbyty neu Radio Myfyrwyr yn yr adroddiad?:

Further to the message which you sent out I was wondering if you were still looking for any additional comments or helpful details which could assist the committee.

I have been the chair of the hospital radio at Prince Philip hospital in Llanelli for a number of years and met recently with Bethan Sayed and explained the way in which hospital radio has now become a lot more community based, also becoming a vehicle for the Hospital trusts media dept as well as serving the needs of the patients.

We get frequent requests from Colleges and Schools and Social Workers for us to provide volunteer work opportunities to allow experience to be gained and confidence development.

Back in the early 70s the concept of hospital radio was to provide general light relief to patients whilst recovering in hospital , nowadays its a hi tech multi platform service which caters for the needs of a whole community , the only problem we face is the constant need to keep on upgrading which means we have to be applying for financial assistance to keep our systems running and useful as a viable training tool. The prospect of small scale DAB is something which we are closely considering as a future path when Ofcom release the licences.

Most recently we have been working closely with hyperlocal news outlet Llanelli on line and feel that this is working well and a good example of how Hospital and Community radio can take shape in the future.

I would be delighted to assist in any way if you require any further information on the subject or welcome to visit us at any time.

David Hurford

Atodiad A: Sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion canlynol dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar yn llawn yn:

www.senedd.cynulliad.cymru

Mae gweddarllodiadau ar gael yn www.senedd.tv

Dyddiad	Enw a sefydliad
15 Chwefror 2018	Pwyllgor Cyngori Ofcom yng Nghymru Glyn Mathias, Cadeirydd y Pwyllgor Hywel Wiliam, Aelod o'r Pwyllgor.
15 Chwefror 2018	Ofcom Rhodri Williams, Cyfarwyddwr, Cymru Neil Stock, Cyfarwyddwr Trwyddedu Darlledu
22 Mawrth 2018	Steve Johnson Uwch Ddarlithydd, Ysgol Diwydiannau Creadigol a Diwylliannol Caerdydd, Prifysgol De Cymru
22 Mawrth 2018	BBC Betsan Powys, Golygydd BBC Radio Cymru a Cymru Fyw Colin Paterson, Golygydd BBC Radio Wales Rhys Evans, Pennaeth Strategaeth ac Addysg
26 Ebrill 2018	Marc Webber , Uwch Ddarlithydd mewn Newyddiaduraeth a'r Cyfryngau Martin Mumford , Rheolwr Gyfarwyddwr, Nation Broadcasting Ltd Mel Booth , Rheolwr Gyfarwyddwr Cymru, Global Radio. Neil Sloan , Pennaeth Rhaglennu, Communicorp UK
26 Ebrill 2018	Dafydd Elis-Thomas AC , Y Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon Hywel Owen , Arweinydd Tîm Polisi'r Cyfryngau, Llywodraeth Cymru
26 Ebrill 2018	Radio Beca Euros Lewis, Ysgrifennydd Cymdeithas Gydweithredol Radio Beca Lowri Jones, Arweinydd Tîm Cymell a Hwyluso

Atodiad B: Tystiolaeth ysgrifenedig

Daeth tystiolaeth i'r pwyllgor drwy gydol yr ymchwiliad. Rhestrir yr ymatebion a dderbyniwyd isod ac maent ar gael yn llawn yn: <http://senedd.cynulliad.cymru/>

Cyfeirnod	Enw a sefydliad
RADIO01	Pwyllgor Cynggori Ofcom yng Nghymru (Saesneg yn unig)
RADIO02	Marc Webber (Saesneg yn unig)
RADIO03	Steve Johnson - Prifysgol De Cymru (Saesneg yn unig)
RADIO04	Global
RADIO05	Comisiynydd y Gymraeg
RADIO06	BBC Cymru Wales
RADIO07	Radiocentre (Saesneg yn unig)
RADIO08	Bro Radio (Saesneg yn unig)
RADIO09	Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
RADIO10	Radio Cardiff (Saesneg yn unig)
RADIO11	GTFM (Saesneg yn unig)
RADIO12	Yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon

Atodiad C: Testun o Lythyr i Ofcom ynghylch ei ymgynghoriad “Lleolrwydd ar radio masnachol”

Jon Heasman
Ofcom
Riverside House
2A Southwark Bridge Road
London SE1 9HA

30 July 2018

Dear Mr Heasman,

The Culture, Welsh Language and Communications Committee of the National Assembly for Wales has recently concluded taking evidence for its inquiry into radio in Wales, which it aims to report on in the autumn. As a result of the evidence received, the Committee has the following concerns over Ofcom’s proposed relaxation of the localness guidelines for local commercial radio stations.

Reduction in the number of hours of local content

- Ofcom has proposed reducing the minimum number of locally-made hours each local commercial station must broadcast. The Committee is concerned that this change paves the way for an increasing homogenisation of content, as stations will likely take the opportunity to further reduce the number of hours of local content that they produce.

Reduction in the number of “approved areas”

- Ofcom has proposed reducing the number of approved areas in Wales within which programmes are considered to be locally-made. By merging three approved areas into one, companies which own multiple local licences will have the ability to switch shows that are produced in one part of Wales to a bigger hub somewhere else in Wales.
- The Committee is concerned that this change will lead to job losses, as companies may take the opportunity to centralise production to one site. This would likely have a detrimental impact on rural communities, with Cardiff likely being the chosen area in which to centralise production. If production were to move out of rural, Welsh-speaking

areas it could also have a detrimental impact on the volume of Welsh language content: a matter of huge concern for Welsh-speaking audiences who are already inadequately served by the commercial radio market.

- As well as the economic and social impact of job losses, this change could potentially reduce the extent to which radio stations are embedded in - and reflect - the areas which they broadcast to, leading to a further homogenisation of content.

In 2016 Wales had the smallest local commercial revenue per head of population of any UK nation. As it would seem that there is less of a market incentive to provide local radio content in Wales, such content must be secured by regulation. Whereas a relaxation in local content requirements may not lead to a diminution of local content in areas well-served by a competitive market, this is simply not the case in Wales. The small number of companies that dominate commercial radio in Wales will see the ability to reduce and centralise local content as a cost-saving opportunity: at the loss of local, distinctive content.

In his evidence to the Committee, Marc Webber, a senior lecturer in journalism and media at the University of Northampton, told us “it must be understood that there is more to Welsh life than news”. These proposals would likely lead to a further erosion of non-news content that reflects the lives of local radio audiences in Wales, and the Committee calls on Ofcom to reassess them accordingly.

Yours sincerely

Bethan Sayed AM

Chair